Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat a gyhoeddwyd dan adran 2A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 40 Deddf Dŵr 2003)

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Gangen Dŵr
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1199
E-bost: water@wales.gsi.gov.uk

Digital ISBN 978 1 4734 0628 5
© Hawlfraint y Goron 2013
WG20418

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | 1 |
| **2** | **Y Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat** | 2 |
| | Swyddogaeth Ofwat | 2 |
| | Pwrpas Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol | 4 |
| | Blaenoriaethau Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat | 5 |
| **3** | **Y sefyllfa bresennol a'r rhesymau dros newid** | 9 |
| **4** | **Polisi a Chanllawiau Llywodraeth Cymru i Ofwat** | 13 |
| | Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr 2011 | 13 |
| | Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru | 13 |
| | Strategaeth Ddŵr i Gymru | 13 |
| | Datblygu Cynaliadwy | 15 |
| | Canlyniadau yn yr Hirdymor | 17 |
| | Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol | 18 |
| | Adrodd gan y Diwydiant Dŵr (Gwell Rheoleiddio) - Lleihau baich gweinyddol ar ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth | 18 |
| **5** | **Polisi Amcanion Cymdeithasol** | 19 |
| | Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi | 19 |
| | Fforddiadwyedd a Phrisiau Dŵr | 19 |
| | Mesuryddion | 21 |
| | Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Gymuned | 23 |
| | Datblygu Economaidd a Chyflawni Canlyniadau ar gyfer Cwsmeriaid | 24 |
| | Deddf Cydraddoldeb 2010 | 25 |
| | Yr Iaith Gymraeg | 26 |
| **6** | **Polisïau Amgylcheddol** | 27 |
| | Ymchwil a Thystiolaeth | 27 |
| | Cynnal Cymru Fyw – Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru | 27 |
| | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006 | 29 |
| | Newid yn yr Hinsawdd | 30 |
| | Addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd | 31 |
| | Lleihau Allyriadau | 32 |
| | Rheoli Adnoddau Dŵr | 33 |
| | Cydbwysedd rhwng y Cyflenwad a'r Galw | 34 |
| | Effeithlonrwydd Dŵr | 35 |
| | Gollyngiadau | 36 |
| | Llifogydd a'r Gallu i wrthsefyll | 37 |
| | Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru | 38 |
| | Llifogydd Dŵr ar yr Wyneb a Strategaethau Lleol | 39 |
| | Y gallu i wrthsefyll peryglon naturiol | 40 |
| | Ansawdd Dŵr Yfed | 41 |
| | Ansawdd Dŵr Amgylcheddol | 42 |
| | Gwaith partneriaeth rhwng Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth | 43 |
| | Carthffosiaeth | 44 |
| **Atodiad A** | Sail Gyfreithiol | 46 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn unol ag adran 2A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

1.2 Bydd y canllawiau drafft yn cael eu cyflwyno am ddeugain diwrnod, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benderfynu na fydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi.

1.3 Mae Adran 2A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i cynhwyswyd gan adran 40 o Ddeddf Dŵr 2003) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru roi Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) am y cyfraniad y gall Ofwat ei wneud i gyflawni polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru[1]. Mae'n ofynnol bod Ofwat yn rhoi sylw i'r cyfryw ganllawiau wrth ymarfer ei bwerau a'i ddyletswyddau fel rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr a charthffosiaeth.

1.4 Mae canllawiau Gweinidogion Cymru yn berthnasol i ardaloedd penodi ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gwasanaethu ardaloedd sy'n gyfan gwbl neu gan fwyaf yng Nghymru**.** Mae canllawiau sy'n berthnasol i ardaloedd penodi ymgymerwyr dŵr neu garthffosiaeth sy'n gyfan gwbl neu gan fwyaf yn Lloegr yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol.

1.5 Wrth lunio'r canllawiau, mae Gweinidogion Cymru, lle y bo'n ymarferol, wedi rhoi sylw dyledus i gostau a buddion y disgwylir iddynt godi yn sgil y canllawiau hyn.

1.6 Lle mae Gweinidogion Cymru yn dymuno gweithredu mesurau polisi cymdeithasol neu amgylcheddol penodol a fyddai'n arwain at oblygiadau ariannol sylweddol i gwsmeriaid neu i'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth rheoleiddiedig, bydd y rhain yn cael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru yn hytrach na chan Ofwat, drwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth benodol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud hyn drwy'r Canllawiau hyn.

1.7 Ni fwriedir i'r Canllawiau hyn ddarparu darlun cynhwysfawr o'r hyn y gall Ofwat ddymuno ei wneud dros y pum mlynedd nesaf neu o unrhyw Ganllawiau eraill y gall Llywodraeth Cymru eu darparu. Ni fwriedir mewn unrhyw ffordd y dylai'r Canllawiau arfaethedig weithredu fel 'Cyfarwyddeb' i Ofwat, ond dylai Ofwat roi sylw i'r Canllawiau wrth ymarfer ei bwerau a'i ddyletswyddau yn unol ag adran 2A(3) o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

[1] Mae adran 2A wedi'i gosod yn llawn yn Atodiad A.

## 2. Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol

### Swyddogaeth Ofwat

2.1 Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yw rheoleiddiwr economaidd annibynnol y diwydiant dŵr. Bob pum mlynedd mae'n cynnal "adolygiad cyfnodol" o'r prisiau sy'n cael eu codi gan bob ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae Ofwat wedi dechrau'r gwaith ar ei adolygiad cyfnodol nesaf (PR14), a fydd yn gorffen yn 2014 pan fydd yn gosod cyfyngiadau prisiau newydd i bob ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofwat fel rheoleiddiwr wedi'u pennu yn Adran 2 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91)[2]. Rhaid i Ofwat:

- warchod buddiannau defnyddwyr, lle y bo'n briodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yng nghyd-destun darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth;
- sicrhau bod swyddogaethau pob ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth yn cael eu cyflawni'n briodol a'u bod yn gallu ariannu eu swyddogaethau, yn benodol drwy sicrhau elw rhesymol ar eu cyfalaf; a
- sicrhau bod cwmnïau sydd â thrwyddedau cyflenwi dŵr (h.y. y rheini sy'n gwerthu dŵr i gwsmeriaid busnes mawr a elwir yn drwyddedeion) yn cyflawni eu swyddogaethau'n briodol.

2.3 Yn amodol ar y dyletswyddau hyn, rhaid i Ofwat hefyd:

- hyrwyddo economi ac effeithlonrwydd ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn eu gwaith;
- sicrhau nad yw'r cyfryw gwmnïau'n rhoi gormod o ffafriaeth nac yn gwahaniaethu wrth osod prisiau;
- sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu gwarchod os yw cwmnïau'n gwerthu tir;
- sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu gwarchod yng nghyd-destun unrhyw weithgareddau heb eu rheoleiddio gan gwmnïau;
- cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy.

2.4 Yn ogystal, rhaid i Ofwat roi sylw i egwyddorion arfer rheoleiddiol gorau.

---

[2] Adran 2 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/56/contents, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/37/contents.

2.5 Ategir y dyletswyddau hyn gan ddyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â’r amgylchedd a hamdden (gweler, er enghraifft, Adrannau 3 a 4 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991).

2.6 Swyddogaeth Llywodraeth Cymru yw penderfynu ar y fframwaith polisi a all effeithio ar y ffactorau sy’n pennu cyfyngiadau prisiau a dwyn sylw Ofwat at flaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy’n gwasanaethu’n gyfan gwbl neu gan fwyaf yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i’w gwasanaethau dŵr yfed a’r amgylchedd. Wrth wneud hyn, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn cwrdd â’n hymrwymiadau Ewropeaidd hefyd.

## Pwrpas y Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol

2.7 Bwriad ein Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol yw sicrhau bod Ofwat yn rhoi sylw dyledus i bolisïau cymdeithasol ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru i ymarfer ei bwerau a'i ddyletswyddau fel rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr a charthffosiaeth.

2.8 Mae'r Canllawiau hyn yn adlewyrchu cyfeiriad ein polisi yn awr ac i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys datganiadau polisi blaenorol a wnaethpwyd mewn perthynas â pholisi dŵr yng Nghymru a blaenoriaethau ehangach y Llywodraeth gan gynnwys datblygu cynaliadwy[3], ein Hagenda Trechu Tlodi[4], datganiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar 22 Hydref 2013 yn dwyn y teitl 'Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus[5] a'r Papur Gwyn yn dwyn y teitl 'Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy – Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd' (Dechreuodd yr ymgynghoriad hwn ar 23 Hydref 2013 a bydd yn dod i ben ar 15 Ionawr 2014)[6].

2.9 Rydym am weld y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru yn cyflawni manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym am i'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth hefyd ddarparu gwasanaethau teg i'w cwsmeriaid sy'n rhoi gwerth am arian.

2.10 Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag ymarfer pwerau a dyletswyddau Ofwat y crybwyllwyd yn Adran 2(1) o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (yn amodol ar adran 2(6))[7]. Disgwylir i Ofwat roi sylw i'r canllawiau hyn pa bryd bynnag y bydd yn ymarfer y pwerau a'r dyletswyddau hynny (ac nid wrth osod cyfyngiadau prisiau yn PR14 yn unig).

2.11 Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ei Chanllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol ei hun fel rhan o'i Datganiad Polisi Strategol i Ofwat sy'n berthnasol i bob ardal a wasanaethir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn gyfan gwbl neu gan fwyaf yn Lloegr[8].

---

[3] Polisi datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?skip=1&lang=cy.

[4] Agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?skip=1&lang=cy.

[5] Datganiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar 22 Hydref 2013 yn dwyn y teitl "Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus" http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/policy-statement/?skip=1&lang=cy.

[6] Papur Gwyn - "Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy - Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd" - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=cy.

[7] Adran 2 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/56/contents, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/37/contents.

[8] Datganiad Sefyllfa ar Bolisi Strategol Defra i Ofwat – Incorporating Social and Environmental Guidance – Mai 2013 - https://www.gov.uk/government/publications/strategic-policy-statement-to-ofwat-incorporating-social-and-environmental-guidance.

**Blaenoriaethau Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat**

2.12 I helpu Ofwat i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein polisi a nodir yng nghorff y Canllawiau hyn, rydym wedi nodi'r blaenoriaethau polisi cyffredinol canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bwriedir bod y rhain yn llywio penderfyniadau Ofwat, pan fydd angen iddo reoli unrhyw densiynau neu gyfaddawdu a all godi rhwng y gwahanol bolisïau yn y canllawiau hyn, a hynny mewn modd sy'n gyson â'i ffordd o reoleiddio yn seiliedig ar ganlyniadau. Heb fod mewn trefn arbennig, cyflwynir y blaenoriaethau hyn isod.

2.13 **Cynigion rheoleiddio:** Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ddarparu asesiad trylwyr o effeithiau unrhyw newidiadau arfaethedig i'w fframwaith rheoleiddio ar gyfer y sector dŵr a charthffosiaeth, ar ddefnyddwyr ac ar fuddsoddwyr. Dylai hyn ystyried sefydlogrwydd tymor hir y sector, o ran cyllid, sefydlogrwydd seilwaith a gwasanaethau, a lles cyffredinol yr economi, y bobl a'r amgylchedd yng Nghymru. Dylai Ofwat geisio osgoi ansicrwydd rheoleiddiol lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan ystyried barn buddsoddwyr a rhanddeiliaid eraill yn briodol. Dylid dangos tystiolaeth yn benodol yng nghyd-destun Cymru o unrhyw gostau a buddion a gyflwynir i ddinasyddion Cymru.

2.14 **Rhwymedigaethau statudol ac amgylcheddol:** Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat hwyluso gwaith ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth Ewrop o fewn yr amserlenni a bennwyd a rheoleiddio er mwyn osgoi unrhyw beth a fyddai'n rhwystro hyn rhag digwydd. Er ein bod yn awyddus i sicrhau bod dymuniadau talwyr biliau dŵr yn cael blaenoriaeth uchel o fewn y broses adolygu prisiau, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yn rhaid cymryd camau hanfodol, er na fyddent o bosib yn cyd-fynd â barn y cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn annog Ofwat i barhau i chwarae rhan weithredol wrth gyflawni amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[9] , er mae'n cydnabod nad yw hyn yn ganolog i'w rôl.

2.15 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r cylch adolygu prisiau hwn (PR14) yn cyd-redeg â chylch cynllunio Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer 2015 – 2021. Byddem yn annog Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru i gydweithio gyda'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i'w helpu i nodi a darparu mesurau sy'n ofynnol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

2.16 Wrth gydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd, gall amgylchiadau godi pan fydd yn ofynnol i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wneud gwaith ychwanegol i sicrhau nad oes dim risg o dordyletswydd y tu allan i gyfnod penodol yr adolygiad prisiau. O ran y materion hyn, byddem yn disgwyl i Ofwat roi sylw dyledus i geisiadau wedi'u seilio ar dystiolaeth gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, i hwyluso'r gwaith o gydymffurfio â Chyfarwyddebau.

---

[9] Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/water-policy/water-framework-directive/?lang=cy#.UpivOf-YYIY.

2.17 **Datblygu cynaliadwy[10]:** Un o ddyletswyddau Ofwat yw cyfrannu at y gwaith o sicrhau datblygu cynaliadwy ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ystyried a chyfrannu at gyflawni ei amcanion ei hun o ran datblygu cynaliadwy. Yng nghyd-destun rheoleiddio economaidd y mae Ofwat yn gyfrifol amdano, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai Ofwat roi sylw hefyd i anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol cydberthynol dinasyddion Cymru yn awr yn ogystal â'r anghenion a ragwelwn ar gyfer y dyfodol.

2.18 **Fforddiadwyedd:** Dylai Ofwat ystyried materion fforddiadwyedd sy'n benodol i Gymru a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae'n rheoleiddio'r prisiau a godir ar gwsmeriaid Cymru. Dylai Ofwat felly roi ystyriaeth briodol i gynlluniau prisiau arloesol gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, gan gynnwys tariffau cymdeithasol, yn unol â 'Guidance to water and sewerage undertakers and the Water Services Regulation Authority (Ofwat), in relation to social tariffs under Section 44 of the Flood and Water Management Act 2010' gan Lywodraeth Cymru, er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd[11]. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat gefnogi cynigion ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer prisiau sy'n deg ac sy'n diogelu grwpiau incwm isel ac agored i niwed fel ei gilydd.

2.19 Mae cost darparu gwasanaethau dŵr yn cael ei hadlewyrchu yn y biliau a delir gan y cwsmeriaid. Ond mae'n bwysig nad ydym yn peidio â buddsoddi er mwyn cadw'r costau yn isel ar gyfer y cwsmeriaid presennol. Gallai hyn arwain at filiau llawer uwch yn y dyfodol. Byddwn felly yn ystyried effaith y cynigion polisi yn ofalus, yn unigol a gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng buddsoddi ar gyfer yr hirdymor a chadw biliau ar lefel realistig. Bydd angen i gwsmeriaid, yn awr ac yn y dyfodol, fod wrth galon ein dull gweithio.

2.20 **Effeithlonrwydd ac atebion cost-effeithiol:** Un o ddyletswyddau Ofwat yw hyrwyddo economi ac effeithlonrwydd ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn eu gwaith. Dylai Ofwat geisio sbarduno arloesed yn y sector dŵr, o fewn y ffiniau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd. Dylai hyn gynnwys parhau i gymell effeithlonrwydd yn ogystal â sicrhau bod ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn gallu codi'r refeniw angenrheidiol i gyllido eu hasedau, buddsoddi mewn dulliau i wrthsefyll a gwneud gwelliannau angenrheidiol mewn gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddarparu atebion cost effeithiol ac effeithlon sy'n cysylltu gwahanol bolisïau a dulliau.

2.21 **Y gallu i wrthsefyll ac atebion cydgysylltiedig wedi'u seilio ar ganlyniadau:** Disgwylir i Ofwat osod cyfyngiadau prisiau sy'n galluogi ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i wneud y gwaith sy'n hanfodol i sicrhau'r gallu i wrthsefyll

---

[10] Polisi datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?skip=1&lang=cy.

[11] Llywodraeth Cymru "Guidance to water and sewerage undertakers and the Water Services Regulation Authority (Ofwat), in relation to social tariffs under Section 44 of the Flood and Water Management Act 2010" - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/social-tariff-guidance/?skip=1&lang=cy.

peryglon naturiol a pheryglon eraill e.e. fandaliaeth, dwyn ayb ac i allu cyflawni'r gwaith at ddibenion diogelwch. Mae gan Ofwat rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i wella gallu'r seilwaith dŵr i wrthsefyll pan mae hyn yn ymwneud ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, a drwy brif ffrydio addasiadau wrth iddynt ystyried a gwneud eu penderfyniadau. Byddem yn annog Ofwat i gefnogi buddsoddi mewn rhaglenni adnewyddu a chynnal a chadw asedau yn seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn sicrhau bod gennym seilwaith cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2.22 **Penderfyniadau a llunio polisïau yn seiliedig ar ymchwil ac ar dystiolaeth:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i lunio polisïau yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n gweld ymchwil berthnasol fel elfen allweddol o sicrhau'r canlyniadau priodol i gwsmeriaid yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i Ofwat ystyried ymchwil briodol a'r costau cysylltiedig pan fo'r angen am ymchwil yn rhan annatod o gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt yng Nghynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.

2.23 Yn ogystal â llywio'r gwaith o gynllunio adnoddau dŵr, dylid defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i fod yn sylfaen i benderfyniadau yn y dyfodol am fuddsoddi mewn seilwaith carthffosiaeth. Byddem yn annog Ofwat i gefnogi cyllido ymchwil a thystiolaeth sy'n cynorthwyo prosiectau peilot i hwyluso'r gwaith o gael atebion i broblemau mewn dalgylchoedd. Gallai hyn gynnwys cymell rheolwyr tir i wella eu harferion rheoli tir er mwyn gwella ansawdd dŵr. Gall y dull hwn o weithio leihau'r angen am fuddsoddiad ychwanegol yn y seilwaith gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.

2.24 **Ansawdd Dŵr Yfed:** Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod parhau i gyflenwi dŵr yfed glân a diogel o'r pwys mwyaf. Disgwylir i Ofwat sicrhau bod buddsoddiadau sy'n ymwneud â gwella asedau er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol ar gyfer ansawdd dŵr yfed yn cael eu cynnal ac yn cael eu hystyried yn llawn wrth osod cyfyngiadau pris.

2.25 **Atebion Rheoli Dŵr Integredig:** Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli dŵr yng Nghymru yw sicrhau bod ein hasedau dŵr yn ddigon cryf i wrthsefyll a'u bod yn cael eu rheoli mewn ffordd integredig sy'n cynyddu'r buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a ddarparant gymaint ag y bo modd. Mae hyn yn gyson â'n dulliau cyffredinol o reoli adnoddau naturiol. Mae Rheoli Adnoddau Dŵr Integredig yn hyrwyddo'r gwaith cydlynol o ddatblygu a rheoli dŵr a thir ac adnoddau perthnasol er mwyn sicrhau'r lles cymdeithasol ac economaidd gorau mewn ffordd deg heb gyfaddawdu ar gynaliadwyedd ecosystemau hanfodol a'r amgylchedd. Byddem yn disgwyl i Ofwat reoleiddio'r diwydiant yng Nghymru mewn modd sy'n gyson â'r dull gweithredu hwn, sy'n annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i fabwysiadu atebion cynaliadwy ac arloesol i reoli dŵr yn integredig, ac sy'n cael gwared ar unrhyw beth sy'n rhwystro ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth rhag gallu eu gweithredu.

2.26 **Rheoli adnoddau yn y dyfodol:** Dylai Ofwat annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i ddatblygu ffyrdd newydd o ymdrin â materion yn y tymor byr ac ar sail hirdymor fwy strategol. Rydym yn cefnogi'n gryf y camau gweithredu gan Ofwat i newid ymddygiad ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a chwsmeriaid i werthfawrogi

dŵr, ei ddefnyddio’n ddoeth a lleihau’r galw.  Yn unol â dull gweithredu Ofwat yn seiliedig ar ganlyniadau, byddem yn disgwyl i Ofwat ystyried dulliau integredig a chynhwysfawr o gynllunio at y dyfodol a’r rhain yn cael eu cefnogi gan werthusiad cadarn a chyfiawn o opsiynau.  Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ganiatáu ymchwiliadau i atebion arloesol a chynaliadwy ar gyfer rheoli adnoddau dŵr, gan gynnwys tynnu dŵr, wrth osod cyfyngiadau prisiau yn y dyfodol.

2.27 Byddem yn disgwyl i Ofwat roi adborth am y gwaith o reoli’r blaenoriaethau cyffredinol hyn fel rhan o’i broses adrodd flynyddol.

## 3. Y sefyllfa bresennol a'r rhesymau dros newid

3.1 Cyflwynwyd y Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol blaenorol i Ofwat ym mis Mawrth 2009 er mwyn cydredeg ag adolygiad cyfnodol diwethaf Ofwat ar brisiau dŵr (PR09). Roedd hyn yn adlewyrchu polisïau blaenoriaethau Llywodraeth flaenorol Cymru fel yr amlinellwyd yn 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru- 2009' [12].

3.2 Mae'r Canllawiau newydd hyn wedi'u drafftio i ystyried blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru ac i adlewyrchu'r meysydd hynny lle mae strategaethau blaenorol Llywodraeth Cymru wedi datblygu a newid.

3.3 Mae'r broses bresennol o adolygu prisiau yn mynd rhagddi ac mae Ofwat wedi cyhoeddi ei fethodoleg a'i ddisgwyliadau terfynol ar gyfer cynlluniau busnes ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, gan bennu eu dull gweithredu terfynol o ran gosod rheolyddion prisiau ar gyfer 2015-20.

3.4 Ers yr adolygiad prisiau diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu sawl polisi allweddol, a disgwylir i Ofwat eu hystyried wrth iddo reoleiddio yn y dyfodol gan gynnwys:

- Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[13]
- Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi - 2012- 2016[14]
- Datganiad Ysgrifenedig – Fframwaith Amgylchedd Naturiol 'Cymru Fyw'[15]
- Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr 2011[16]
- Datganiad Ysgrifenedig ar Bolisi Dŵr yng Nghymru – 12 Rhagfyr 2011[17]
- Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi - 2012[18]
- Datganiad Ysgrifenedig - Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus – hydref 2013[19]
- Papur Gwyn – Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy – Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd – 23 Hydref 2013 – 15 Ionawr 2015[20]

---

[12] Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy - 2009 - http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy.
[13] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy
[14] Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?skip=1&lang=cy.
[15] Datganiad Ysgrifenedig - Y Fframwaith Amgylchedd Naturiol 'Cymru Fyw' - http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/110615nat/?skip=1&lang=cy.
[16] Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr 2011 - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/statement2011/?skip=1&lang=cy.
[17] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar Bolisi Dŵr yng Nghymru - 12 Rhagfyr 2011- http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/12decemberwaterpolicy/?skip=1&lang=cy.
[18] Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi - http://wales.gov.uk/funding/wiipindex/wiipfull2012/?skip=1&lang=cy.
[19] Datganiad Ysgrifenedig – Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus - http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/resilientfuture/?skip=1&lang=cy.
[20] Papur Gwyn - "Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy - Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd" - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=cy.

3.5 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu amrywiaeth o waith gan gynnwys:

- Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (y Bil Datblygu Cynaliadwy gynt) a fydd yn helpu Cymru i fynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu hwynebu o un genhedlaeth i'r llall mewn dull mwy cydgysylltiedig ac integredig – bydd hyn yn sicrhau bod penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru a bod lles hirdymor Cymru yn cael ei ystyried hefyd[21].
- Strategaeth Ddŵr i Gymru [22], a fydd yn cael ei gosod yng nghyd-destun ein hymrwymiadau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[23]. Bydd y Strategaeth hon yn gosod safbwynt Llywodraeth Cymru ar ystod o bolisïau dŵr i Gymru. Bydd y Strategaeth hefyd yn gosod ein cynigion ar gyfer rheoli dŵr yn integredig er mwyn ateb heriau'r dyfodol a sicrhau ein bod yn datblygu i'r eithaf y buddion y gall ecosystem dŵr iach ei ddarparu i'n dinasyddion, i'n heconomi ac i'n hamgylchedd.

3.6 Mae cynaliadwyedd cyffredinol wrth galon rhaglen ddeddfwriaethol a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Ac ystyried y cyfan, bydd yn hyrwyddo'r lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac yn gwella ansawdd bywyd pobl Cymru. Yng Nghymru, ein nod yw sicrhau llwybr datblygu hirdymor ar gyfer ein gwlad. Mae hyn yn golygu pobl iach a chynhyrchiol; cymunedau llewyrchus a chynhwysol; amgylchedd amrywiol a gwydn ac economi ddatblygedig ac arloesol.

3.7 Nod Llywodraeth Cymru yw symleiddio a hwyluso'r ffordd yr ydym yn gweithio yng Nghymru a sicrhau bod gennym ddeddfwriaeth, rheoliadau a phrosesau cynllunio sy'n effeithiol ac yn ateb y gofyn er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol. Rydym am gael dyfodol lle gallwn weithio mewn modd mwy integredig a chyfannol a fydd yn gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion Cymru a bod gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cyfrannu'n effeithiol at ddwyn buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Gwelwn hyn fel rhywbeth sydd yn gyson iawn â'r dull gweithredu a ddefnyddir gan Ofwat erbyn hyn sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

3.8 Yn ystod cyfnod adolygu prisiau PR14, disgwylir i Ofwat ystyried barn amrywiaeth o randdeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys barn Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed[24], Cyfoeth Naturiol Cymru[25], Asiantaeth yr Amgylchedd[26], Natural England [27]a Chyngor Defnyddwyr Dŵr[28].

---

[21] Gwybodaeth am y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol - http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/future-generations-bill/?lang=cy

[22] Gwybodaeth am y Strategaeth Ddŵr i Gymru - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/water-strategy/?skip=1&lang=cy.

[23] Welsh Government Programme for Government - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=en.

[24] Ffurfiwyd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI) ym 1990 i roi sicrwydd annibynnol bod cyflenwadau dŵr yng Nghymru a Lloegr yn ddiogel a bod ansawdd dŵr yfed yn dderbyniol ar gyfer defnyddwyr. Mae'n craffu'n annibynnol ar weithgareddau ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer cyflenwi dŵr yfed, gan weithio gyda rhanddeiliaid eraill i wella ansawdd dŵr yfed a sicrhau diogelwch dŵr yfed.

3.9 Fel rhan allweddol o'r broses adolygu prisiau, bydd yn rhaid i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddangos eu bod wedi ymgysylltu'n effeithiol â'u cwsmeriaid. Bydd hyn yn cynnwys helpu cwsmeriaid i ddeall cyfrifoldebau a blaenoriaethau ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a sicrhau bod barn cwsmeriaid am y rhain yn cael eu hystyried, lle y bo hynny'n briodol, a'u hadlewyrchu mewn cynlluniau busnes.

3.10 I gefnogi'r broses hon, mae pob ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth wedi gorfod sefydlu Grwpiau Herio ar ran Cwsmeriaid. Mae Grwpiau Herio ar ran Cwsmeriaid yn grwpiau lleol annibynnol o gynrychiolwyr cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Maent wedi cael eu sefydlu ar gyfer y broses PR14 i herio cynlluniau busnes cwmnïau dŵr. Dylai'r Grwpiau Herio ar ran Cwsmeriaid sicrhau bod materion lleol a rhanbarthol yn cael eu hystyried yn briodol a bod barn sylfaen cwsmeriaid gyfan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn cael ei hystyried. Bydd pob grŵp yn cyflwyno adroddiad annibynnol i Ofwat ar yr un pryd ag y bydd ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn cyflwyno eu cynlluniau busnes.

3.11 Mae'r grwpiau yn cael eu cadeirio'n annibynnol ac maent yn cynnwys trawstoriad o gwsmeriaid neu eu cynrychiolwyr. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys aelodau o'r sefydliadau a restrir uchod yn ogystal ag Awdurdodau Lleol, rheolwyr tir, sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau, cynrychiolwyr grwpiau defnyddwyr a chanddynt anghenion arbennig a buddiannau eraill.

3.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fforwm PR14 i roi llwyfan i gwmni Dŵr Dyffryn Dyfrdwy a Dŵr Cymru Welsh Water gael cefnogaeth drwy'r broses Adolygu Prisiau ac er mwyn iddynt ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach sy'n rhan o'r broses Adolygu Prisiau. Mae Fforwm PR14 yn darparu mecanwaith i sicrhau bod blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.

3.13 Mae'r Fforwm yn cynnwys ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru yn ogystal â'r rheoleiddwyr uchod (ac eithrio Ofwat), Cyngor

---

[25] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ei bwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn modd cynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

[26] Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ei phrif nodau yw gwarchod a gwella'r amgylchedd, a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'n chwarae rôl ganolog wrth gyflawni blaenoriaethau amgylcheddol y llywodraeth ganolog yn Lloegr.

[27] Mae Natural England yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ei bwrpas yw gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Lloegr ac annog pobl i fwynhau a bod yn rhan o'r hyn sydd o'u cwmpas.

[28] Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCWater) yn cynrychioli defnyddwyr dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'n sicrhau y clywir llais unedig defnyddwyr yn y trafodaethau cenedlaethol am ddŵr, a bod defnyddwyr yn parhau i fod wrth galon y diwydiant dŵr. Hefyd bydd yn ymdrin â chwynion defnyddwyr pan na fydd materion wedi'u datrys gydag ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.

Defnyddwyr Dŵr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[29]. Ar ôl cyflwyno cynlluniau busnes i Ofwat, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Ofwat gan osod ei barn am wahanol gynlluniau'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth o ran eu hymgysylltiad â Fforwm PR14, a sut y maent wedi ystyried polisïau a gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

[29] Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt ohoni. Ei phrif amcanion yw gwella llywodraeth leol a hyrwyddo ei henw da a helpu awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

## 4. Polisi a Chanllawiau Llywodraeth Cymru i Ofwat

4.1 Ym mhob un o'r adrannau dilynol, rhoddir cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru yn gyntaf. Bydd y canllawiau penodol ar y meysydd y disgwyliwn i Ofwat roi sylw iddynt i'w gweld yn yr adrannau mewn blwch, fel sy'n briodol.

### Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr 2011

4.2 Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Sefyllfa cyntaf ar y Polisi Strategol ar Ddŵr. Cynhyrchwyd y Datganiad i gynnig i roi arweiniad pendant i Ofwat, yr ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, rheoleiddwyr a phartïon eraill â diddordeb am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dŵr yng nghyd-destun yr adolygiad ar brisiau dŵr. Roedd y Datganiad yn cynnwys datganiadau polisi clir ar faterion allweddol ac ar gamau gweithredu penodol i'w symud ymlaen.

4.3 Cafodd y Datganiad hwn ei adolygu a'i ddiweddaru yn 2011 [30]. Mae'r Datganiad diwygiedig yn diweddaru'r sefyllfa sy'n adlewyrchu datblygiadau allweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n amlygu'r meysydd a fydd yn flaenoriaethau yn y dyfodol.

4.4 Ein hamcanion craidd yw sicrhau mynediad at ddŵr yfed diogel, cynnal gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth am bris fforddiadwy a chydymffurfio ag ymrwymiadau statudol sy'n sbarduno ansawdd dŵr ymhobman.

### Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru

4.5 Mae'r Rhaglen Lywodraethu - 2011[31] yn pennu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor presennol, y camau gweithredu a fydd yn eu cymryd a sut y bydd yn barnu a yw ei chamau gweithredu ar y trywydd cywir. Ei phrif egwyddor drefniadol yw datblygu cynaliadwy gyda phwyslais ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, gan ymgorffori ei gwerthoedd o degwch a chyfiawnder cymdeithasol. Ei huchelgais yw gweld pobl iach yn byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus ac arloesol; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda lefelau is o dlodi a mwy o gydraddoldeb a chynhwysiant; ac amgylchedd gwydn gyda defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru.

### Strategaeth Ddŵr i Gymru [32]

4.6 Yn y Rhaglen Lywodraethu, amlygwyd ymrwymiad i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Strategaeth Ddŵr i Gymru, ac rydym yn bwriadu ei chyhoeddi at ddiben

[30] Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr 2011 - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/statement2011/?skip=1&lang=cy.
[31] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy
[32] Gwybodaeth am y Strategaeth Ddŵr i Gymru - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/water-strategy/?skip=1&lang=cy.

ymgynghori ym mis Ionawr 2014. Bydd y Strategaeth yn cyflwyno safbwynt Llywodraeth Cymru ac yn rhoi arweiniad i randdeiliaid allweddol yn y sector dŵr am amrediad o bolisïau dŵr ar gyfer Cymru.

4.7 Bydd y Strategaeth yn cael ei gosod yng nghyd-destun polisi ehangach Llywodraeth Cymru gan gynnwys ein hagenda Trechu Tlodi – 2012 - 2016[33], y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru - 2006[34], Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd - 2010[35], Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru - 2009[36], Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru – Mai 2013[37], Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus – Hydref 2013[38] a'n Papur Gwyn – Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy - Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd – 23 Hydref 2013 – 15 Ionawr 2015[39].

4.8 Bydd y Strategaeth yn ymateb i argymhellion perthnasol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gweithredu o adolygiad Martin Cave Independent Review of Competition and Innovation in Water Markets[40], adolygiad Anna Walker Independent Review of Charging for Household Water and Sewerage Services[41] ac adolygiad David Gray Review of Ofwat and Consumer Representation in the Water Sector[42].

4.9 Bydd y Strategaeth yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i reoli dŵr mewn modd integredig a chynaliadwy. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion dŵr Cymru yn cael eu diwallu yn y dyfodol, gan ystyried newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a phatrymau galw. Bydd y Strategaeth hefyd yn gosod canllawiau eglur i sicrhau bod rheoleiddio'n aros yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru.

---

[33] Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?skip=1&lang=cy.

[34] Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006 - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/envstratforwales/?skip=1&lang=cy.

[35] Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/strategy/?skip=1&lang=cy.

[36] Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru- 2009 - http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy

[37] Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru - http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/historic/cadw/historicenvironstrat/?skip=1&lang=cy.

[38] Datganiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar 22 Hydref 2013 yn dwyn y teitl "Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus" - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/policy-statement/?lang=cy

[39] Papur Gwyn - "Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy - Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd" - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=cy.

[40] Independent Review of Competition and Innovation in Water Markets - https://www.gov.uk/government/publications/competition-and-innovation-in-the-water-markets-cave-review.

[41] Independent Review of Charging for Household Water and Sewerage Services - https://www.gov.uk/government/publications/the-independent-review-of-charging-for-household-water-and-sewerage-services-walker-review.

[42] Review of Ofwat and Consumer Representation in the Water Sector - https://www.gov.uk/government/publications/review-of-ofwat-and-consumer-representation-in-the-water-sector.

- Disgwylir i Ofwat ystyried holl bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys y Strategaeth Ddŵr i Gymru pan fydd yn cael ei chyhoeddi.
- Mae'n hanfodol bod Ofwat yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng polisïau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac yn rheoleiddio yn unol â hynny.
- Rydym yn disgwyl i Ofwat ystyried cynlluniau ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn ôl achosion unigol.
- Rydym yn disgwyl bod ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wedi datblygu eu cynlluniau yn unol â chanllawiau a osodwyd gan Ofwat. Dylai'r cynlluniau hyn ystyried hefyd, lle y bo'n briodol, adborth gan gwsmeriaid a'r gwahanol Grwpiau Herio ar ran Cwsmeriaid.
- Rydym yn annog Ofwat i gefnogi cynlluniau sy'n uchelgeisiol, yn rhoi gwerth am arian, yn sicrhau bod gofynion rheoleiddio gorfodol yn cael eu gweithredu a sicrhau seilwaith gwydn a diogel ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Rydym yn disgwyl y bydd dinasyddion Cymru, yn ddeiliaid tai ac yn fusnesau, yn gallu cael y gwasanaethau hyn heb unrhyw berygl i iechyd y cyhoedd.

**Datblygu Cynaliadwy**

4.10 Mae gan ddatblygu cynaliadwy sylfaen statudol gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006[43] yn cynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun datblygu cynaliadwy. Mae Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r canlynol:

> *"Rhaid i Weinidogion Cymru lunio cynllun ("y cynllun datblygu cynaliadwy") sydd yn nodi sut y maent am hybu datblygu cynaliadwy."*
>
> Rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol hefyd:
>
> - adrodd bob blwyddyn ar sut y mae'r cynigion a nodwyd yn y cynllun wedi cael eu gweithredu; ac
> - adrodd, ar ôl pob etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ba mor effeithiol y buont (drwy gyfrwng y cynllun) o ran hybu datblygu cynaliadwy.

4.11 Mae'r cynllun presennol, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru - 2009[44] yn nodi'r weledigaeth i gael dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru gyfan lle y bydd camau gweithredu a phenderfyniadau a wneir gan

---

[43] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents.
[44] Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru- 2009 - http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy.

Lywodraeth Cymru, gan weithio ag eraill, yn arwain at y lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd gorau posib yn yr hirdymor yng Nghymru.

4.12 Drwy'r Cynllun, mae Gweinidogion Cymru wedi ymroi i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnig cyflwyno deddfwriaeth i wneud y dull hwn o weithredu hwn yn fandad ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ar gyfer y sector cyhoeddus datganoledig ehangach yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn anelu i greu corff datblygu cynaliadwy newydd i ddiogelu'r dull hwn o weithredu a helpu i gyflawni ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

4.13 Mae datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, a sicrhau ansawdd gwell o fywyd i ni ein hunain a chenedlaethau yn y dyfodol mewn ffyrdd sy'n:

- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; a
- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu'i gyfyngiadau – gan ddefnyddio ein cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

4.14 Mae dyletswydd statudol ar Ofwat i gyfrannu at sicrhau'r datblygiad cynaliadwy.

- Disgwylir i Ofwat ddefnyddio amrediad eang o arbenigedd wrth wneud penderfyniadau a gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid perthnasol – gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Cadw[45], Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Fforwm Diwydiant Dŵr Cymru gan Lywodraeth Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru yn mesur ei chynnydd tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy'i chyfres o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy sydd wedi'u cadarnhau. Mae'r rhain yn darparu fframwaith lefel uchel er mwyn gosod y cyd-destun i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth fesur eu perfformiad Datblygu Cynaliadwy eu hunain[46]. Byddem yn disgwyl i Ofwat ystyried y mesurau a weithredir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i fodloni Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Nghymru.

4.15 Mae gweithredu arferion datblygu cynaliadwy yn gofyn am newid mawr mewn diwylliant ac arferion gwaith llawer o sefydliadau. Bydd sicrhau bod gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei gweithredu yn golygu bod datblygu cynaliadwy yn

[45] Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru sy'n gweithio dros amgylchedd hanesyddol hygyrch sydd wedi'i warchod yn dda ar gyfer Cymru.
[46] Defnyddir Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy i fesur cynnydd: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/sustainable-development-indicators/?skip=1&lang=cy.

ategu ac yn sbarduno popeth y mae’r diwydiant dŵr yn ei wneud ac yn argymell eraill i’w wneud.

- Dylai penderfyniadau Ofwat gael eu hategu’n gadarn gan egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan ystyried, lle y bo’n bosibl, effeithiau ar yr economi, y gymdeithas a’r amgylchedd yn y tymor byr a’r hirdymor, a’r costau a’r buddion o weithredu a diffyg gweithredu.
- Fel rhan o’i ddyletswydd datblygu cynaliadwy, dylai Ofwat geisio annog a thynnu sylw mewn modd gweledol ac amlwg at enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â datblygu cynaliadwy.
- Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i weithredu ar sail datblygu cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y dylid mynd i’r afael â materion llygredd wrth wraidd y broblem, lle y bo’n bosibl. Dylai ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth chwilio am y wybodaeth wyddonol orau sydd ar gael a’i defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau ac i ystyried yr amrediad llawn o gostau a buddion wrth wneud neu gymeradwyo cynlluniau a phenderfyniadau. Dylai hyn gynnwys y costau a’r buddion hynny nad oes modd rhoi pris ariannol arnynt. Er enghraifft, dadansoddiad o gostau/buddion effaith eu penderfyniadau ar y gymdeithas yn ogystal ag ar yr amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y dylai Ofwat gefnogi’r dull hwn o weithredu ac annog ymgymerwyr i gael atebion i faterion sy’n dwyn amryfal fuddion.

**Canlyniadau yn yr Hirdymor**

4.16 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddarparu atebion cost effeithiol ac effeithlon sy’n cysylltu gwahanol bolisïau a dulliau. Mae hyn yn cynnwys integreiddio’r broses o weithredu, cynnal a chadw, ac adnewyddu asedau gyda darpariaethau newydd er mwyn cwrdd â gofynion newydd. Yn ogystal, mae angen dull gweithredu sy’n seiliedig ar y cylch dŵr a fydd yn ystyried adnoddau dŵr, ansawdd dŵr yfed, ystyriaethau amgylcheddol a rheoli perygl o lifogydd.

- Rydym yn cefnogi ac yn annog Ofwat ymhellach yn eu ffordd o feddwl am orwelion cynllunio ar gyfer y tymor hwy, a’u bod yn ei gwneud yn ofynnol i raglenni ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gael eu cynllunio mewn ffordd integredig.
- Yn unol â dull gweithredu Ofwat yn seiliedig ar ganlyniadau, byddem yn disgwyl i Ofwat ystyried dulliau integredig a chynhwysfawr o gynllunio at y dyfodol a’r rhain yn cael eu cefnogi gan werthusiad cadarn a chyfiawn o opsiynau.
- Cyn belled ag y mae amserlenni statudol yn caniatáu, mewn rhai achosion efallai mai’r ateb mwyaf effeithiol yn yr hirdymor yw gohirio neu gyflymu’r camau gweithredu, neu gyfuno dau fesur a fyddai fel arall yn cael eu gwneud ar wahanol ddyddiadau. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod dadleuon cadarn dros weithredu fesul cam,

ar sail cost-effeithiolrwydd neu ansicrwydd.

- Ymhob achos, disgwyliwn i Ofwat fonitro gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg ac ystyried tystiolaeth newydd.
- Byddem yn annog Ofwat i gefnogi buddsoddi mewn rhaglenni adnewyddu a chynnal a chadw asedau yn seiliedig ar dystiolaeth, a bydd hyn yn sicrhau bod gennym seilwaith cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol**

4.17 Fel y nodwyd yn *Securing the Future* (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig , 2005)[47], gall sefydliadau cynaliadwy fod yn ysgogwyr pwerus i gael patrymau mwy cynaliadwy o ddefnyddio a chynhyrchu. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yw 'gweld busnesau'r DU yn ystyried eu heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau datblygu cynaliadwy allweddol, yn seiliedig ar eu cymwyseddau craidd lle bynnag y maent yn gweithredu'.

- Dylai Ofwat annog yr ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn i fabwysiadu cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, fel y disgrifiwyd uchod, gyda'r nod o sicrhau ymrwymiad llawn i gyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â chyrraedd safonau uchel o lywodraethu corfforaethol.
- Fel rhan o'i ffordd o ymdrin â datblygu cynaliadwy, dylai Ofwat annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i edrych ar eu camau gweithredu a'u perfformiad. Disgwylir i Ofwat annog canlyniadau gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru.

**Adrodd gan y Diwydiant Dŵr (Gwell Rheoleiddio) - Lleihau baich gweinyddol ar ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth**

4.18 Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhan ffurfiol o'r polisi ar draws Whitehall ar leihau beichiau gweinyddol, ond mae'n gefnogol o'r polisi. Rydym yn awyddus bod pob rheoleiddiwr yn gweithio mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn lleihau beichiau diangen, heb gyfaddawdu canlyniadau rheoleiddiol.

- Drwy ymgynghori ag eraill, dylai Ofwat barhau i ystyried ffyrdd o leihau neu symleiddio ei ofynion gwybodaeth am y diwydiant a chyfiawnhau unrhyw feichiau newydd ar sail gadarn cost a budd.

[47] Securing the Future (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 2005) - https://www.gov.uk/government/publications/securing-the-future-delivering-uk-sustainable-development-strategy.

## 5. Polisi Amcanion Cymdeithasol

### Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2012- 2016[48]

5.1 Mae’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn pennu amcanion allweddol Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yn yr hirdymor, i helpu pobl allan o dlodi ac i liniaru effaith tlodi. Mae’r Cynllun Gweithredu yn cydnabod bod angen cydlynu mwy â’n partneriaid er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bawb yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i wella bywydau'r rheini sy’n byw mewn tlodi a bydd cadw biliau dŵr ar lefel fforddiadwy yn helpu i leihau dyled a diogelu grwpiau agored i niwed.

5.2 Ar ben hynny, bydd Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn cael ei gyflwyno mewn ffyrdd sy’n cysylltu â’r Amcanion Cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol – 2012 - 2016[49].

### Fforddiadwyedd a Phrisiau Dŵr

5.3 Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cael Cymru lle mae pawb yn cyflawni eu llawn botensial a lle gall pawb fyw bywyd yn rhydd o dlodi ac anghydraddoldeb. Rydym yn arbennig o bryderus am effaith prisiau dŵr ac effaith y codiadau mewn biliau dŵr ar y cwsmeriaid hynny sy’n llai tebygol o allu talu. Mae hyn yn hynod bwysig o’i ystyried ochr yn ochr â’r cynnydd mewn biliau cyfleustodau eraill a biliau eraill y cartref.

5.4 Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn bryderus ynghylch fforddiadwyedd i bob cwsmer a lefel gymharol uchel biliau dŵr mewn rhannau helaeth o Gymru, er bod y bwlch rhwng prisiau Cymru a Lloegr wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diweddar.

5.5 Mae cost darparu gwasanaethau dŵr yn cael ei hadlewyrchu yn y biliau a delir gan y cwsmeriaid. Ond mae’n bwysig nad ydym yn peidio â buddsoddi er mwyn cadw’r costau yn isel ar gyfer y cwsmeriaid presennol. Gallai hyn arwain at filiau llawer uwch yn y dyfodol. Byddwn felly yn ystyried effaith y cynigion polisi yn ofalus, yn unigol a gyda’i gilydd, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng buddsoddi ar gyfer yr hirdymor a chadw biliau ar lefel realistig. Bydd angen i gwsmeriaid, yn awr ac yn y dyfodol, fod wrth galon ein dull gweithio.

- Un o ddyletswyddau Ofwat yw hyrwyddo economi ac effeithlonrwydd ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn eu gwaith a chyfrannu hefyd at sicrhau datblygu cynaliadwy. Felly, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat reoleiddio er mwyn lleihau’r baich ariannol posibl gymaint ag y bo modd ar gwsmeriaid dŵr yng Nghymru, wrth gynnal gwasanaethau a galluogi’r diwydiant dŵr yng Nghymru i fodloni ei ymrwymiadau statudol cenedlaethol ac Ewropeaidd. Dylai hyn gynnwys parhau i gymell

[48] Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/poverty/?skip=1&lang=cy.
[49] Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 - 2016 - http://wales.gov.uk/topics/equality/equalityactatwork/?skip=1&lang=cy.

effeithlonrwydd yn ogystal â sicrhau bod ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn gallu codi'r refeniw angenrheidiol i gyllido eu hasedau, buddsoddi mewn dulliau i wrthsefyll a gwneud gwelliannau angenrheidiol mewn gwasanaethau.

- Dylai Ofwat ystyried materion fforddiadwyedd sy'n benodol i Gymru a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae Ofwat yn rheoleiddio'r prisiau. Dylai Ofwat roi ystyriaeth briodol i brisiau arloesol gan ymgymerwyr, gan gynnwys tariffau cymdeithasol, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru[50], i helpu i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd. Lle y bo yn briodol, dylai Ofwat geisio cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru a Chyngor Defnyddwyr Dŵr yng Nghymru yn y gwaith hwn.
- Pan fydd Ofwat yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar gyfyngiadau pris yn y dyfodol, dylai esbonio sut y mae wedi ystyried unrhyw sylwadau gan randdeiliaid yng Nghymru.

5.6 Ar 1 Mawrth 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Guidance to water and sewerage undertakers and the Water Services Regulation Authority (Ofwat), in relation to social tariffs under Section 44 of the Flood and Water Management Act 2010'[51]. Mae hyn yn gosod y fframwaith i'w ddefnyddio gan ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth i gyflwyno tariff cymdeithasol os yw'n dewis gwneud hynny. Mae hefyd yn gosod y fframwaith y dylai Ofwat ei ystyried wrth arfer ei bŵer i reoleiddio cynlluniau prisiau.

5.7 Mae lefel y Ddyled Ddrwg a ddaw i ran y diwydiant dŵr yng Nghymru yn cyfateb i £20 y flwyddyn am bob cartref. Rhwng 17 Gorffennaf a 6 Tachwedd 2013, cyhoeddwyd ymgynghoriad gennym yn dwyn y teitl 'Tackling Bad Debt within the Water Industry in Wales:The Water and Sewerage Information (Non-owner Occupiers) Regulations'[52].

5.8 Nod y Rheoliadau drafft yw gweithredu Adran 144C o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 er mwyn helpu i fynd i'r afael â dyled ddrwg yn y diwydiant dŵr yng Nghymru. Byddai'r Rheoliadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid roi eu henw a'u cyfeiriad, ynghyd ag enw'r tenant, dyddiad geni a dyddiad dechrau'r denantiaeth, i'r ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth perthnasol. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gasglu taliadau am filiau a lleihau'r costau a delir gan gwsmeriaid eraill ar hyn o bryd, gan arwain at filiau dŵr llai i bawb. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Rheoliadau terfynol cyn gwanwyn 2014.

---

[50] Llywodraeth Cymru "Guidance to water and sewerage undertakers and the Water Services Regulation Authority (Ofwat), in relation to social tariffs under Section 44 of the Flood and Water Management Act 2010" - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/social-tariff-guidance/?skip=1&lang=cy.

[51] Cyfeirnod fel y nodwyd yn 49.

[52] Ymgynghoriad ar Tackling Bad Debt within the Water Industry in Wales: The Water and Sewerage Information (Non-owner Occupiers) Regulations' - 17 Gorffennaf a 6 Tachwedd 2013 - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/tackling-bad-debt-in-the-water-industry/?skip=1&lang=cy.

5.9 Yn aml gall dyled fod yn gysylltiedig â gallu deiliad tŷ i dalu. Dylai ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth roi cefnogaeth er mwyn sicrhau bod deiliaid tai agored i niwed yn gallu talu eu bil dŵr, yn ogystal â mynd o ddifrif ar ôl y deiliaid tai hynny sy'n dewis peidio â thalu eu biliau.

5.10 Drwy gynnig cefnogaeth, bydd ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn gallu lleihau'r lefel bresennol o Ddyled Ddrwg. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i fodloni anghenion eu cwsmeriaid a chynnig tariffau a chynlluniau talu wedi'u targedu'n briodol er mwyn helpu i leihau nifer y deiliad tai sy'n mynd i ddyled.

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat gefnogi cynigion ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer prisiau sy'n deg ac sy'n diogelu grwpiau incwm isel ac agored i niwed fel ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld awgrymiadau ar gyfer tariffau a strwythurau arloesol a allai helpu i ymdrin â materion fforddiadwyedd a chasglu dyledion.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cadw'r gwaharddiad presennol ar ddatgysylltu dŵr a charthffosiaeth i gartrefi. Dylai Ofwat barhau i ddarparu cymhellion i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth leihau unrhyw gostau ychwanegol sy'n cael eu hysgwyddo gan y cwsmeriaid hynny sy'n talu eu biliau ar amser.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ystyried ei Chanllaw Tariffau Cymdeithasol wrth reoleiddio unrhyw brisiau a gynigir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

## Mesuryddion

5.11 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod corff cynyddol o dystiolaeth ar gael i gefnogi mesuryddion fel ffordd deg o dalu am ddŵr, ac i annog cwsmeriaid i leihau eu galw am ddŵr.

5.12 Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru eu dosbarthiad terfynol o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr lle mae diffyg dŵr (straen dŵr)[53]. Yn seiliedig ar y diffiniadau presennol ac ar wahân i ambell ardal fan hyn fan draw, nid yw adnoddau dŵr Cymru mewn perygl difrifol ar hyn o bryd, ac nid oes dim ardaloedd lle mae'r cyflenwad yn ddifrifol o annigonol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio bod angen ystyried goblygiadau newid yn yr hinsawdd a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau dŵr.

[53] Dosbarthiad ardaloedd straen dŵr yng Nghymru a Lloegr - http://naturalresourceswales.gov.uk/content/Our-work/Policy-advice-and-guidance/water-policy/water-stressed-areas?lang=cy#.Upc71v-YYlY

5.13 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn y buddion amgylcheddol sy’n deillio o ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon a chynaliadwy a’r buddion cysylltiedig y gallai hyn eu creu o ran lleihau ôl-troed carbon, o ganlyniad i orfod trin a phwmpio llai o ddŵr, yn ogystal â lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir a’r ynni angenrheidiol i’w gynhesu. Mae llai o alw yn arwain at lai o ddŵr gwastraff sydd, yn ei dro, yn arwain at lai o ofynion o ran seilwaith a chostau ynni is a mwy o allu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

5.14 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli’r costau sy’n gysylltiedig â gosod mesuryddion i bawb, a’r effaith y bydd hyn yn ei chael ar gartrefi, yn arbennig felly ar gyfer y cartrefi tlotach.

5.15 Ar y cyd â Defra, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol ar godi tâl am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Ymysg pethau eraill, roedd yr adolygiad hwn yn ystyried effeithiolrwydd a thegwch y dulliau codi tâl a swyddogaeth mesuryddion.

5.16 Argymhellodd adolygiad Walker, *Independent Review of Charging for Household Water and Sewerage Services*[54]fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi penderfyniadau polisi clir am fesuryddion, gan nodi'r hyn y mae ei angen a pha bryd. Roedd yr adolygiad yn awgrymu gosod mesuryddion yn systematig drwy ardal gyfan lle mae dadansoddiad cost a budd yn dangos y byddai hynny’n fuddiol. Roedd argymhellion eraill yn cynnwys gosod mesuryddion mewn cartrefi pan fyddai’r meddiannydd yn newid, gosod mesuryddion ar ffin yr eiddo (lle y bo’n bosibl) a bilio cwsmeriaid yn chwarterol, yn seiliedig ar union ddarlleniadau’r mesurydd. Yn ogystal, argymhellodd yr adolygiad y dylid codi tâl wedi’i asesu lle nad yw’n ymarferol gosod mesurydd.

5.17 Bydd Strategaeth Ddŵr arfaethedig Llywodraeth Cymru yn gosod polisi arfaethedig i’r dyfodol sy’n ymwneud â mesuryddion yng Nghymru.

[54] Independent Review of Charging for Household Water and Sewerage Services - https://www.gov.uk/government/publications/the-independent-review-of-charging-for-household-water-and-sewerage-services-walker-review.

- Ochr yn ochr ag unrhyw ddatblygiad naturiol i osod mwy o fesuryddion yn eu hardaloedd (hynny yw, lle mae cwsmeriaid yn dewis mesuryddion neu lle mae mesuryddion yn cael eu gosod mewn eiddo newydd), dylai Ofwat annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i gyflwyno mesurau effeithlonrwydd dŵr er mwyn helpu i leihau faint o ddŵr a ddefnyddir.
- Rydym yn ymwybodol bod technoleg yn datblygu a byddem yn croesawu cyfleoedd pellach i edrych ar wneud mesuryddion yn fforddiadwy ac i ddatblygu tariffau sy'n annog defnyddio dŵr yn gynaliadwy.
- Os yw ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn ystyried gosod mwy o fesuryddion, dylai Ofwat eu hannog i edrych ar yr effaith bosibl ar fforddiadwyedd i gwsmeriaid a chymryd camau lliniarol i gynorthwyo cwsmeriaid agored i niwed a all weld cynnydd yn eu biliau o ganlyniad. Dylid bwrw ymlaen â'r camau hyn hefyd yn unol â'n canllawiau i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ac Ofwat, mewn perthynas â thariffau cymdeithasol.[55]

**Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Gymuned**

5.18 Wrth ddatblygu unrhyw benderfyniadau ar brisiau, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd Ofwat yn ystyried safbwyntiau cwsmeriaid drwy ei Grwpiau Herio ar ran Cwsmeriaid. Dylid cydbwyso'r safbwyntiau hyn gyda'r angen parhaus i warchod cwsmeriaid dŵr presennol ac yn y dyfodol.

5.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fforwm PR14 i roi llwyfan i gwmni Dŵr Dyffryn Dyfrdwy a Dŵr Cymru Welsh Water gael cefnogaeth drwy'r broses Adolygu Prisiau ac er mwyn iddynt ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach sy'n rhan o'r broses Adolygu Prisiau. Mae Fforwm PR14 yn darparu mecanwaith i sicrhau bod blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.

- Dylai Ofwat annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cymunedau lleol ac economi Cymru. Gall hyn fynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau hanfodol drwy, er enghraifft, ymgysylltu â fforymau llifogydd lleol.
- Dylai Ofwat ystyried amgylchiadau penodol Cymru wrth ddatblygu ac ymgynghori ar gynigion newydd i weithredu ei swyddogaethau rheoleiddiol. Dylai Ofwat ddadansoddi ymatebion i ymgynghoriadau ar wahân ar gyfer Cymru a, lle y bo'n briodol ac y gellir ei gyfiawnhau, dylai osod mesurau newydd yng nghyd-destun blaenoriaethau polisi Cymru.

[55] Llywodraeth Cymru "Guidance to water and sewerage undertakers and the Water Services Regulation Authority (Ofwat), in relation to social tariffs under Section 44 of the Flood and Water Management Act 2010" - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/social-tariff-guidance/?skip=1&lang=cy.

- Gan gydnabod na fydd rhai camau gweithredu hanfodol yn cyd-fynd â barn y cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau y dylai dymuniadau talwyr biliau dŵr gael blaenoriaeth uchel o fewn y broses adolygu prisiau a thu hwnt. Dylai hyn gynnwys bod ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn ystyried adborth gan gwsmeriaid a'u gwahanol Grwpiau Herio ar ran Cwsmeriaid.
- Disgwylir i Ofwat, wrth ymarfer ei ddyletswyddau neu ei bwerau, ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn bwrpasol gyda Chyngor Defnyddwyr Dŵr ac eraill. Dylai ystyried pa wybodaeth bynnag sydd wedi'i chasglu ganddynt ar faterion fel pa mor ddigonol a fforddiadwy yw'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ac mewn perthynas ag anghenion dŵr y grwpiau o ddefnyddwyr agored i niwed.
- Dylai Ofwat weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gweithdrefnau ac adnoddau effeithiol ar waith i'w galluogi i ymdrin ag unrhyw anghydfod gan gwsmeriaid y maent yn gyfrifol amdanynt mewn ffordd effeithlon ac amserol.
- Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Ofwat ystyried costau yn ogystal â buddion, ond dylai'r costau a'r buddion hynny ystyried y costau a'r buddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.
- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ystyried safbwyntiau o Fforwm PR14 dros Gymru a bod yn dryloyw yn y penderfyniadau y mae'n ei wneud mewn ymateb i sylwadau o'r Fforwm PR14 a'r Grwpiau Herio ar ran Cwsmeriaid.

**Datblygu Economaidd a Chyflawni Canlyniadau ar gyfer Cwsmeriaid**

5.20 Mae swyddi a thwf economaidd ymhlith rhai o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae cael cyflenwad dŵr cynaliadwy, gwydn a fforddiadwy yn hanfodol i helpu i gefnogi'r rhain. Ochr yn ochr â gosod rôl glir a realistig i Lywodraeth Cymru yn yr economi, mae gan y diwydiant dŵr rôl ganolog i'w chwarae hefyd o ran diwallu anghenion busnesau a'r diwydiant yn y dyfodol yn ogystal ag anghenion poblogaeth sy'n tyfu yn y blynyddoedd i ddod.

5.21 Caiff Llywodraeth Cymru ei harwain gan yr egwyddorion o fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, arloesedd a gwella'r amgylchedd busnes. Mae hyn yn cynnwys integreiddio mwy ar y polisïau economaidd, addysg, sgiliau, caffael a chynllunio i gyflawni mwy o fuddion i economi Cymru; annog lefelau mwy o fuddsoddiad a chyflogaeth gan y sector preifat; cynyddu'r cysylltiadau rhwng y byd academaidd a busnesau; a gosod Cymru fel economi werdd, carbon isel.

5.22 Un o amcanion Ofwat yw gwarchod buddiannau defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth rheoleiddiedig drwy hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol, lle y bo'n briodol. Fel rhan o hyn, mae Ofwat yn cynnig gosod cap prisiau ar wahân ar gyfer gweithgareddau manwerthu a chyfanwerthu.

5.23 Un o flaenoriaethau mwyaf Llywodraeth Cymru yw buddsoddi mewn seilwaith. Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi[56] wedi'i lunio gyda'r bwriad o flaenoriaethu, mesur a chydlynu'r dasg o weithredu ein buddsoddiadau mawr mewn seilwaith, yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at les cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn wedi arwain at gydweithio ar draws y Llywodraeth a thu hwnt i ddatblygu dealltwriaeth strategol ar y cyd o anghenion seilwaith a'r cyfleoedd. Mae gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yn hollbwysig i gefnogi'r dasg o weithredu'r cynllun hwn a gweithgareddau economaidd ledled Cymru, o adeiladu a thai i gynhyrchu ynni a diwydiant.

5.24 Bydd y Strategaeth Ddŵr arfaethedig i Gymru yn creu'r blaenoriaethau ar gyfer dŵr a gwasanaethau dŵr yng Nghymru, gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Bydd hefyd yn amlinellu dewisiadau ar gyfer sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau canlyniadau effeithiol i'w cwsmeriaid busnes yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys pecyn o fesurau i annog arloesedd yn y sector dŵr ac i sbarduno gwelliannau mewn effeithlonrwydd a lefelau gwasanaeth i gwsmeriaid.

- Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod tystiolaeth lawn ar gael ar gyfer unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sy'n effeithio ar hyder y buddsoddwyr, gydag asesiad trylwyr o'r effeithiau, gan dynnu sylw at y costau a'r buddion sy'n benodol i randdeiliaid Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ystyried gwahanol sefyllfaoedd polisi priodol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel bod unrhyw wahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cael ei adlewyrchu'n llawn mewn arfer a diwygio rheoleiddio, ac na fydd hyn yn effeithio er gwaeth ar ddefnyddwyr Cymru.
- Dylai Ofwat geisio dangos i Lywodraeth Cymru beth yw manteision hirdymor ei benderfyniadau mewn perthynas â hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesi i gwsmeriaid.
- Byddem yn annog Ofwat i gefnogi twf economaidd yng Nghymru drwy ganiatáu buddsoddiadau mewn seilwaith sy'n atyniadol, yn gynaliadwy, yn effeithlon, yn sicrhau budd i gwsmeriaid a bod modd eu cyllido.
- Dylai Ofwat ystyried datblygu cymhellion i hyrwyddo gwaith partneriaeth rhwng ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a datblygwyr lle gall hynny arwain at ddatblygu cymunedau sy'n wirioneddol gynaliadwy, e.e. darparu systemau draenio trefol cynaliadwy.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

5.25 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi lle canolog i bobl, ac ansawdd eu bywydau yn awr ac yn y dyfodol. Mae cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn

[56] Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi - http://wales.gov.uk/funding/wiipindex/wiipfull2012/?skip=1&lang=cy.

neddfwriaeth sefydlu Llywodraeth Cymru ac mae’n cael ei adlewyrchu yn ei hegwyddorion arweiniol. Ochr yn ochr â chynaliadwyedd a lles, dyma sy’n gosod y cerrig sylfaen ac yn ategu’r oll mae’n ei gwneud.

5.26 Daethpwyd â’r gofynion cyfreithiol ynghylch cydraddoldeb ynghyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r Ddeddf yn ceisio integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb a pherthynas dda â phobl ym musnes beunyddiol awdurdodau cyhoeddus.

- Wrth arfer ei swyddogaethau a’i ddyletswyddau, mae’n rhaid i Ofwat, o dan y ‘ddyletswydd gyfreithiol ’ o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, ystyried sut y gall ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a mabwysiadu perthynas dda rhwng y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a’r rheini heb nodweddion gwarchodedig.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.27 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hybu defnyddio’r iaith Gymraeg. Derbyniodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2011. Mae’n cynnwys darpariaeth am statws yr iaith Gymraeg ac mae’n sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n rhagamodi hefyd mai prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg. Mae’r Mesur hefyd yn sefydlu'r egwyddor na ddylai’r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yng Nghymru.

5.28 Mae’r Mesur yn sefydlu fframwaith i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus (a rhai cwmnïau preifat a mudiadau’r trydydd sector) i gydymffurfio â safonau sy’n berthnasol i’r iaith Gymraeg. Bydd y Safonau’n cael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

5.29 Mae’n bosibl bod Ofwat yn atebol i gydymffurfio â’r cyfryw safonau yn unol â’r Mesur ac mae’n bosib felly y bydd yn rhaid i Ofwat gydymffurfio â safonau yn y dyfodol, os bydd safonau’n cael eu gwneud yn berthnasol iddynt hwy, ac os cyflwynir y safonau â hysbysiad cydymffurfio.

5.30 Bydd cynlluniau iaith Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn parhau i fod mewn grym nes caiff y Safonau o dan y Mesur eu cyflwyno. O ganlyniad, hyd nes y bydd Ofwat yn gorfod cydymffurfio â Safonau, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat gydymffurfio â’i gynllun iaith Gymraeg ei hun a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg sy’n gyfrifol erbyn hyn am gymeradwyo a monitro cynlluniau, yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2012).

- Rydym yn disgwyl i Ofwat gydymffurfio â’i gynllun iaith Gymraeg ei hun a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (y Comisiynydd erbyn hyn).

## 6. Polisïau Amgylcheddol

### Ymchwil a Thystiolaeth

6.1 Mae angen ymchwil a thystiolaeth dda i ategu ein cyfeiriad polisi. Rydym yn rhoi pwys arbennig ar gasglu gwybodaeth a thystiolaeth gadarn wrth ddatblygu ein polisi. Gyda'r wybodaeth hon, gallwn ddatblygu gwell ffyrdd o ymdrin â materion o bwys yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol.

6.2 Er mwyn sicrhau polisïau ar sail tystiolaeth, rheoleiddio amgylcheddol priodol a buddsoddiad wedi'i dargedu'n briodol ar gyfer cynnal a gwella yn y dyfodol, mae'n rhaid cael rhaglen fonitro. Dylai hyn helpu i sicrhau y gellir mynd i'r afael â phroblemau yn gynt, pan fydd yn fwy cost effeithiol i wneud hynny, yn hytrach na'u bod yn digwydd heb i neb sylwi arnynt nes bydd problem ddifrifol yn codi sy'n arwain at gamau adferol ar gost uwch.

- Rydym yn gweld ymchwil berthnasol fel elfen allweddol o gyflawni'r canlyniadau cywir i gwsmeriaid yng Nghymru. Disgwyliwn i Ofwat ystyried ymchwil briodol a'r costau cysylltiedig pan fo'r angen am ymchwil yn rhan annatod o gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt mewn cynlluniau busnes ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.
- Rydym yn disgwyl i Ofwat weithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn gweithio'n effeithiol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgorffori prosesau monitro amgylcheddol effeithiol yn eu cynlluniau busnes priodol.

### Cynnal Cymru Fyw – Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru [57]

6.3 Mae'r papur ymgynghori Cynnal Cymru Fyw – 2012 yn amlinellu ein cynigion ar gyfer dull newydd o reoli ein hadnoddau naturiol.

6.4 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynllunio adnoddau naturiol dros yr hirdymor, am 25 mlynedd a mwy. Ein dyhead yn yr hirdymor yw rheoli adnoddau naturiol ar bob lefel er mwyn dangos ein bod yn canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy. Drwy wella a rheoli ein hamgylchedd naturiol yn fwy holistaidd, byddwn yn sicrhau ein lles amgylcheddol yn ogystal â gwneud y gorau o'r buddion economaidd a chymdeithasol yn yr hirdymor hefyd.

6.5 Bydd Cynnal Cymru Fyw yn dod yn uniongyrchol o dan 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru - 2009'[58] a bydd hyn yn helpu i

---

[57] Cynnal Cymru Fyw – Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?skip=1&lang=cy
[58] Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru - 2009 - http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy.

sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth galon sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu.

6.6 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan ein hamgylchedd werth cynhenid ei hun, mae'n cynnal ein bywyd, mae'n ffynhonnell adnoddau hanfodol a phen draw iddi, ac mae'n ganolog i ansawdd ein bywyd, synnwyr lle, iechyd a lles ac mae'n ategu ein datblygiad economaidd.

6.7 Mae'r pwyslais yn Cynnal Cymru Fyw ar fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor ecosystemau iach. Mae ecosystemau iach yn cynnal poblogaethau iach o rywogaethau sy'n ysbrydoli ac yn difyrru pobl Cymru ac ymwelwyr. Mae'n bwysig cydnabod hefyd fuddion economaidd ehangach ecosystemau iach, fel cynhyrchu bwyd a choed, awyr a dŵr glân, atal llifogydd, llwyddiant economaidd ac iechyd a lles.

6.8 Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ymwreiddio dull integredig o reoli adnoddau naturiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu edrych yn ehangach ar y cyfleoedd y mae'r amgylchedd naturiol yn eu darparu – gwasanaethau'r ecosystem - er mwyn sicrhau atebion gwydn hirdymor gyda llawer o fuddion i bobl, i fusnesau ac i'r amgylchedd. Rydym yn mynd i ddefnyddio'r dull hwn drwy'r Llywodraeth gyfan ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhopeth a wnawn sy'n arwain ac yn effeithio ar reoli adnoddau naturiol.

6.9 Bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru fabwysiadu'r dulliau integredig o reoli adnoddau naturiol yn ei holl weithgareddau. Mae'r gwaith i brofi hyn a'i wreiddio wedi cychwyn a bydd yn parhau i ddatblygu. Mae ein Papur Gwyn yn dwyn y teitl 'Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy - Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd'[59] yn nodi sut y byddwn yn gwreiddio'r dull hwn o weithio drwy ddeddfwriaeth.

6.10 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i atal llygredd lle y bo'n bosibl, ac i wneud i'r llygrwr dalu am y difrod a wneir gan lygredd, h.y. sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol yn ysgwyddo'r costau.

- Dylai Ofwat, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i barchu cyfyngiadau amgylcheddol, fel nad yw adnoddau yn cael eu disbyddu y tu hwnt i unrhyw adferiad neu fel nad yw'r amgylchedd yn cael ei ddifrodi yn y fath fodd fel na ellir gwrthdroi hyn. Rydym yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth fodloni rhwymedigaethau statudol, bod yn gyson yn eu ffordd o ddefnyddio gwahanol fframweithiau cynllunio a sicrhau gwelliannau a geisir gan gwsmeriaid.
- O dan rai amgylchiadau, bydd cyfiawnhad dros gefnogi mesurau i

[59] Papur Gwyn - "Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy - Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd" - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=cy.

osgoi difrod amgylcheddol difrifol posibl lle mae ansicrwydd gwyddonol ynglŷn â'r risgiau a'r atebion. Mewn achosion o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymchwiliad pellach gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a gweithredu atebion arloesol;

- Dylai Ofwat ymgysylltu'n rhagweithiol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth er mwyn sicrhau bod atebion gwydn, hirdymor gyda llawer o fuddion i bobl, i fusnesau ac i'r amgylchedd yn cael eu pennu.
- Rydym yn disgwyl i Ofwat gymell a, lle y bo'n briodol, sicrhau nad oes dim byd yn rhwystro ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth rhag mabwysiadu atebion cynaliadwy ac arloesol i reoli dŵr yn integredig, megis rheoli dalgylchoedd.

**Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006**[60]

6.11 Mae ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer dŵr yn cael eu hamlinellu yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru - 2006. Mae'n rhoi sylw i'n hamcanion i geisio rheoli dŵr yn gynaliadwy, cynnal ansawdd dŵr da a lleihau llygredd dŵr yn ogystal â chwrdd ag anghenion y gymdeithas ac ystyried materion fforddiadwyedd. Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau ar gyfer rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy; defnydd dŵr yn fwy effeithlon drwy'r holl sectorau; amcanion ar gyfer dŵr yfed ac ansawdd dŵr; newid yn yr hinsawdd; rheoli perygl o lifogydd ac am gyflwr safleoedd o bwys rhyngwladol, Cymreig a lleol.

6.12 Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru hefyd yn cynnwys amcanion i wella ansawdd ein dyfroedd arfordirol, ac i sicrhau bod ein moroedd yn lân ac yn cynnal ecosystemau iach. Yn ychwanegol, dylid gwarchod a gwella safonau biolegol a chemegol ein hafonydd a dylai safleoedd o bwys rhyngwladol, Cymreig a lleol fod mewn cyflwr ffafriol ac yn gallu cynnal y rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd wedi cael eu nodi ynddynt.

- Disgwylir i Ofwat roi sylw i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru a'r dull gweithredu a nodwyd yn Cynnal Cymru Fyw. Dylai gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i ddatblygu atebion arloesol, hirdymor sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, lle y bo'n briodol. Dylai hyn gynnwys ffyrdd o ymdrin â'r dalgylch cyfan, sy'n cydnabod rôl a swyddogaeth prosesau naturiol.
- Dylai Ofwat roi sylw i'r ffaith ei bod yn bosib y bydd cwsmeriaid yn cefnogi ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wrth iddynt gyflawni gweithgareddau o fewn eu cymhwysedd sy'n darparu buddion cymdeithasol ehangach, fel hyrwyddo neu warchod bioamrywiaeth,

[60] Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006 - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/envstratforwales/?skip=1&lang=cy.

| | |
|---|---|
| | cynhyrchu ynni, buddion tirwedd, rheoleiddio beryglon o lifogydd neu ddarparu gwybodaeth ac addysg amgylcheddol er mwyn hyrwyddo newid mewn ymddygiad ynghylch defnyddio dŵr neu ddefnyddio'r system ddraenio yn briodol. |

**Newid yn yr Hinsawdd**

6.13 Mae'r diwydiant dŵr eisoes yn agored i'r tywydd a'r hinsawdd bresennol. Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd yn rhoi rhagor o bwysau ar y diwydiant dŵr oherwydd y newid mewn patrymau glawiad a thymereddau yn cynyddu.

6.14 Lansiwyd Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd[61] yn Hydref 2010 ac mae'n amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ennyn newid ymddygiad ystyrlon ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gan bawb yng Nghymru gyfraniad i'w wneud wrth ymdrin â hyn - unigolion, cartrefi, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau cymunedol.

6.15 Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn gwireddu amcan y Rhaglen Lywodraethu[62] o leihad blynyddol mewn allyriadau carbon cyfwerth â 3% mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli o 2011 ymlaen.

6.16 Mae'r Strategaeth wedi pennu targedau sectoraidd penodol mewn perthynas â thrafnidiaeth, eiddo preswyl, busnes, amaethyddiaeth a defnydd tir, sector cyhoeddus a gwastraff. Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru, y tro hwn, i osod targedau sector ar gyfer y sector dŵr ond gan fod y sector dŵr yn ddefnyddiwr ynni arwyddocaol, mae'n gyfrannwr arwyddocaol i allyriadau nwyon tŷ gwydr ac mae ganddo ran i'w chwarae o ran lleihau'r rhain.

6.17 Yn ogystal â'r ymgyrch i leihau allyriadau, bydd effaith newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ddofn ar y diwydiant hefyd. Yn y dyfodol, disgwylir i Gymru weld cynnydd mewn tymheredd, gaeafau gwlypach, hafau sychach, cyfnodau dwysach o law a mwy o amrywiadau yn yr hinsawdd.

6.18 Heb weithredu, yn seiliedig ar Ragolygon Hinsawdd y DU 2009[63], mae'n debygol y ceir anghysondebau rhwng y galw brig am ddŵr a'r dŵr a fydd ar gael, mwy o gyflenwadau dŵr annigonol i bobl ac ecosystemau, mwy o broblemau ansawdd dŵr ecolegol a mwy o ddigwyddiadau llifogydd o afonydd a systemau draenio trefol.

---

61 Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/strategy/?skip=1&lang=cy.
62 Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy
63 Mae Rhagolygon Hinsawdd y DU (UKCP09) yn rhoi gwybodaeth am yr hinsawdd i helpu'r rheini y mae angen iddynt gynllunio sut y byddant yn addasu i hinsawdd sy'n newid. Mae'r data yn canolbwyntio ar y DU - http://ukclimateprojections.defra.gov.uk/.

**Addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd**

6.19 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gymryd camau i addasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Mae addasu yn faes polisi sy'n datblygu a bydd meithrin gallu o fewn sefydliadau i ddeall a chynllunio ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn galluogi'r diwydiant dŵr i nodi'r camau addasu angenrheidiol i feithrin y gallu i wrthsefyll yn y dyfodol.

6.20 Wrth weithio o fewn y cyd-destun hwn, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y dystiolaeth orau sydd ar gael ar newid yn yr hinsawdd yn cael ei hintegreiddio'n llawn yn ei pholisïau dŵr.

6.21 Dylai ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ystyried mesurau addasu ar sail risg, wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, gan gynnwys rhagolygon ar gyfer newid yn yr hinsawdd fel y rheini a ddarparwyd drwy Ragolygon Hinsawdd y DU UKCP09 a'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU[64].

6.22 Mae angen i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gydnabod eu rhan fel Awdurdodau Adrodd a nodwyd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008[65] a phrif ffrydio addasiadau i'w prosesau penderfynu y pennwyd yng nghanllawiau Deddf Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru - 'Paratoi ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd[66].

6.23 Mae lleihad yn y dŵr sydd ar gael yn un o brif effeithiau posib newid yn yr hinsawdd, a byddai hyn yn mynd yn waeth pe bai cynnydd ym maint ac amlder cyfnodau o sychder. Os nad yw mesurau addasu yn cael eu gweithredu, gallai hyn arwain at ganlyniadau difrifol ar gyfer cartrefi, busnesau, amaethyddiaeth a defnyddwyr dŵr eraill.

6.24 Yn ôl adroddiad Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU i Gymru[67], amcangyfrifir y bydd llif isel mewn afonydd yn gostwng tua 10% i 20% erbyn y 2020au, a 30% i 40% erbyn y 2080au (o'i gymharu â gwaelodlin 1961-90).

6.25 Amcangyfrifir y bydd y dŵr sydd ar gael yng Nghymru yn gostwng yn y dyfodol. Yn ôl amcangyfrif dros dro, mae'n bosib y bydd oddeutu 40% o boblogaeth Cymru yn dioddef yn sgil prinder dŵr erbyn y 2020au, gan godi i dros 90% erbyn y 2080au.

6.26 Amcangyfrifir y bydd nifer y safleoedd afonydd yng Nghymru sy'n bodloni Dangosyddion Llif Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr [68] yn lleihau tua

---

[64] UK climate change risk assessment: Government report - https://www.gov.uk/government/publications/uk-climate-change-risk-assessment-government-report.
[65] Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/27/contents.
[66] Canllawiau ar baratoi ar gyfer y newid yn yr hinsawdd - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/preparing/how/guidance/?skip=1&lang=cy.
[67] Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/riskassess/?skip=1&lang=cy.

40% erbyn y 2020au a hyd at 90% erbyn y 2080au o'i gymharu â gwaelodlin 1961-90. Mae'r gostyngiad hwn yn amcangyfrif “heb weithred liniarol”, h.y. sefyllfa lle mae popeth yr un fath ag arfer.

6.27 Amcangyfrifir y bydd llifogydd o Orlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol yn cynyddu, gan achosi llifogydd a llygredd ychwanegol. Mae amcangyfrifon ar gyfer Caerdydd yn awgrymu y bydd cynnydd o dros 50% mewn amlder gorlifoedd erbyn y 2080au. Mae'r cynnydd hwn yn amcangyfrif “heb weithred liniarol”, h.y. sefyllfa lle mae popeth yr un fath ag arfer.

- Disgwylir i Ofwat adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i wella gallu'r seilwaith dŵr i wrthsefyll pan fo hyn yn ymwneud ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, a thrwy brif ffrydio addasiadau wrth iddynt ystyried a gwneud eu penderfyniadau.
- Mae Llywodraeth Cymru yn deall nad rôl Ofwat yw darparu addasiadau yn lleol ac mai cyfrifoldeb yr ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth eu hunain yw deall risgiau newid yn yr hinsawdd a chynllunio i ddelio â'r risgiau hynny er mwyn gwasanaethu mewn modd cynaliadwy. Yn hytrach, rydym yn disgwyl i Ofwat ddarparu cymhellion rheoleiddiol priodol i alluogi'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i addasu i newid yn yr hinsawdd, a chymryd camau gweithredu os byddant yn methu â bodloni eu rhwymedigaethau.
- Yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd yn Adroddiad Addasu i Newid yn yr Hinsawdd gan Ofwat, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat:
  - alluogi camau addasu drwy osod y cymhellion rheoleiddiol priodol er mwyn sicrhau addasiadau effeithiol, effeithlon a theg;
  - meithrin gallu i addasu drwy wella ei ddealltwriaeth ei hun a'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth; a
  - monitro a gwerthuso drwy fesur canlyniadau ym mherfformiad y sector a'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a fydd yn dylanwadu ar ei gamau rheoleiddio.

**Lleihau Allyriadau**

6.28 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth barhau i leihau'r ynni a ddefnyddiant a chanfod ffyrdd newydd o leihau'r galw yn y dyfodol.

6.29 Byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi gweld gostyngiadau yn ôl-troed carbon y diwydiant yn parhau. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod cymaint o ynni ag y bo modd

[68] Dangosyddion Llif Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - http://www.environment-agency.gov.uk/business/topics/water/135357.aspx.

yn cael ei gynhyrchu'n effeithlon drwy brosesau ac adnoddau'r diwydiant ei hun, gan gynnwys prosesau treulio anaerobig a chipio nwyon tŷ gwydr, a drwy geisio cyflenwadau ynni adnewyddadwy amgen.

6.30 Offeryn rheoleiddio allweddol ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn y diwydiant dŵr yw Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon[69] a ddechreuodd yn 2010.

- Rydym yn annog Ofwat i hybu ymdrechion ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i leihau eu galw am ynni, cynyddu faint o ffynonellau ynni adnewyddadwy a ddefnyddiant, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr heb fod yn $CO_2$.
- Rydym yn annog Ofwat i gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio atebion ynni adnewyddadwy a lleihau ynni yn gyson â'n polisïau a'n rhwymedigaethau statudol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth fodloni eu hymrwymiadau'n llwyr o dan yr Ymrwymiad Lleihau Carbon. Dylai Ofwat reoleiddio er mwyn osgoi unrhyw rwystrau rhag cyflawni amcanion ac anghenion y cynllun.

**Rheoli Adnoddau Dŵr**

6.31 Mae gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth rwymedigaeth statudol o dan Adran 37A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991[70] i gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr sy'n gosod eu hanghenion adnoddau dŵr rhagamcanol dros y 25 mlynedd nesaf er mwyn cynnal y cyflenwad cyhoeddus, ac yn ystyried anghenion amgylcheddol, rhagolygon ar gyfer newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth.

6.32 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth dŵr fel ased naturiol yng Nghymru a bydd yn gweld sut y mae gwella rheoli adnoddau dŵr yng nghyd-destun y Rhaglen Adnoddau Naturiol.

6.33 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn cymryd rhan yn y Rhaglen Adfer Dulliau Gynaliadwy o Dynnu Dŵr drwy Gymru a Lloegr ers y 1990au er mwyn taro cydbwysedd rhwng tynnu dŵr o afonydd, cronfeydd a ffynonellau dŵr daear, ac anghenion yr amgylchedd. O fis Ebrill 2013 ymlaen, ysgwyddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y cyfrifoldeb dros y rhaglen Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr[71] yng Nghymru.

---

[69] Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad Lleihau Carbon - https://www.gov.uk/crc-energy-efficiency-scheme
[70] Adran 37A Deddf Diwydiant Dŵr 1991 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/56/section/37.
[71] Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr - http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/water/abstrations-impoundment/restoring-sustainable-abstraction/?lang=cy#.UpeCHP-YYlY.

6.34 Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid lleihau effaith amgylcheddol y broses tynnu dŵr a wneir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, os yw'r rhain yn effeithio ar safleoedd o fewn cwmpas y rhaglen Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr (yn arbennig felly ar safleoedd cadwraeth natur rhyngwladol a chenedlaethol) ac os oes angen lleihau'r llif er mwyn cwrdd ag amcanion amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[72].

6.35 Nodwyd bod angen gwneud nifer o newidiadau trwydded tynnu dŵr drwy Gymru.

- Wrth asesu cynlluniau busnes neu Gynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, dylai Ofwat sicrhau bod ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wedi nodi a gwreiddio atebion rheoli galw sy'n gallu helpu i adfer dulliau cynaliadwy o dynnu dŵr a lleihau'r risg o niwed amgylcheddol.
- Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd, Ofwat, Defra a Llywodraeth Cymru ganllawiau ar y cyd 'Water resources planning guideline – the technical methods and instructions'[73]. Mae'r canllawiau hyn yn nodi blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru o ran rheoli adnoddau dŵr a byddem yn disgwyl i bob rheoleiddiwr yn y sector dŵr a'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru eu hystyried.
- Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wneud archwiliadau i effeithiau eu prosesau tynnu dŵr, er mwyn dylanwadu ar yr angen am newidiadau i drwyddedau tynnu dŵr. Felly mae'n disgwyl i Ofwat ganiatáu ymchwiliadau o'r fath ar gyfyngiadau prisiau.
- Fel rhan o'r broses adolygu prisiau, disgwylir i Ofwat ystyried y costau a ddaw i ran ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r drwydded yn unol â'r rhaglen Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr[74], er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.[75]

---

[72] Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/water-policy/water-framework-directive/?lang=cy#.UpivOf-YYlY.
[73] Water resources planning guideline – the technical methods and instructions - http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&frm=1&source=web&cd=1&ved=0CDIQFjAA&url=http%3A%2F%2Fcdn.environment-agency.gov.uk%2Fgeho0612bwpe-e-e.pdf&ei=WLaUUpyWG4GBhAequIHwBg&usg=AFQjCNH84yZ8XG7BQ22Yjl1AoSthsumosA&bvm=bv.57155469,d.ZG4.
[74] Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr - http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/water/abstrations-impoundment/restoring-sustainable-abstraction/?lang=cy#.UpeCHP-YYlY.
[75] Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd- http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/habitatdirective/?lang=cy

**Cydbwysedd rhwng y Cyflenwad a'r Galw**

6.36 Mae gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddyletswydd statudol o dan Adran 3(2) (a) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991[76] (fel y'i diwygiwyd) i hybu cadwraeth dŵr wrth ymarfer ei swyddogaethau . Mae gan Ofwat ddyletswydd statudol yn ogystal, fel awdurdod cyhoeddus, o dan Adran 83 o Ddeddf Dŵr 2003[77], wrth ymarfer ei swyddogaethau i ystyried pa mor fuddiol yw gwarchod dŵr sy'n cael ei gyflenwi neu sydd i'w gyflenwi i adeiladau.

6.37 Wrth ystyried yr angen am adnoddau newydd, byddai disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth chwilio am atebion o safbwynt y galw a darparu dadansoddiad a thystiolaeth ddigonol o'r gwerthusiad cyn ystyried mesurau cyflenwi newydd. Bydd y ffordd hon o weithio yn helpu i wneud iawn am yr angen i gynyddu cyflenwadau a'r costau cymdeithasol ac amgylcheddol cysylltiedig.

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat ystyried ei ddyletswydd, fel awdurdod cyhoeddus o dan Adran 83 o Ddeddf Dŵr 2003, wrth ymarfer ei swyddogaethau, i roi sylw i ba mor fuddiol yw gwarchod dŵr sy'n cael ei gyflenwi neu sydd i'w gyflenwi i adeiladau, pan ymgynghorir ag Ofwat ynghylch Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr ac wrth ystyried cynigion ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer mesurau rheoli galw o fewn y mesurau gyd-bwyso'r cyflenwad a'r galw yn yr adolygiad o brisiau. Bydd taro'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw yn cyfrannu at amcanion amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael cydweithrediad Ofwat i gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i ganolbwyntio mwy ar fesurau rheoli cynnydd mewn galw. Dylai'r mesurau hyn gynnwys addysgu defnyddwyr, mesurau effeithlonrwydd dŵr ac ystyried rhaglen mesuryddion briodol sy'n cynnig gwarchodaeth i gwsmeriaid agored i niwed.
- Fel rhan o hyn, dylai Ofwat ystyried cynigion ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer cyflawni cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw ar sail ffordd arloesol a hirdymor o reoli adnoddau dŵr.

**Effeithlonrwydd Dŵr**

6.38 Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006[78] yn rhoi cryn bwyslais ar reoli adnoddau dŵr, gan gynnwys rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy, ateb anghenion y gymdeithas heb achosi niwed i'r amgylchedd a cheisio sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon ar draws pob sector. Mae gwella effeithlonrwydd dŵr ar draws pob sector, mewn cartrefi newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli, yn ffordd bwysig o leihau'r galw am gyflenwadau dŵr yn y dyfodol.

---

[76] Deddf Diwydiant Dŵr 1991- http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/56/contents.
[77] Deddf Dŵr 2003 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/37/contents.
[78] Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006 - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/envstratforwales/?skip=1&lang=cy.

6.39 Ar hyn o bryd, nid oes dim ardaloedd yng Nghymru sy'n dioddef o gyfnodau maith o gyflenwad dŵr annigonol; felly nid ydym yn rhag-weld y bydd Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn cynnwys rhaglenni i osod mesuryddion i bawb yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, ceir ardaloedd o ddiffyg dŵr posibl lle mae'r galw a ragwelir yn y dyfodol yn fwy na'r cyflenwad sydd ar gael. Yn yr ardaloedd hyn o ddiffyg a lle mae posibilrwydd o niwed amgylcheddol oherwydd gormod o dynnu dŵr, mae gweithredu i leihau'r galw yn arbennig o bwysig. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod bod angen paratoi am newidiadau yn y cyflenwad a'r galw oherwydd newid mewn patrymau glawiad a thymereddau uwch o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd a'r angen i reoli'r galw'n effeithiol a hyrwyddo effeithlonrwydd.

- Rydym yn cefnogi'n gryf y camau gweithredu gan Ofwat i helpu i newid ymddygiad ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a chwsmeriaid i werthfawrogi dŵr yn well, ei ddefnyddio'n ddoeth a lleihau'r galw.
- Wrth edrych ar ganlyniadau a gyflwynir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth mewn perthynas â'u Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, byddai Llywodraeth Cymru yn annog Ofwat i ystyried a yw buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach (gan gynnwys ffactorau allanol amgylcheddol fel tynnu dŵr ac allyriadau nwyon tŷ gwydr) wedi cael eu hystyried.
- Byddem yn annog Ofwat i hyrwyddo gwaith partneriaeth a rhannu arferion gorau rhwng ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, er mwyn cyflwyno gwelliannau mewn effeithlonrwydd dŵr.

**Gollyngiadau**

6.40 Mae dŵr sy'n gollwng o bibellau ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn gwastraffu dŵr ac ynni os yw'r budd o'i leihau yn fwy na chyfiawnhau'r gost. Mae hyn yn fater o flaenoriaeth fawr i gwsmeriaid a gall niweidio enw da'r diwydiant. Mae Ofwat wedi gosod targedau lleihau gollyngiadau blynyddol ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt eu cyflawni erbyn 2015.

6.41 Mae'r diwydiant wedi dangos y gall fod yn fwy effeithiol wrth ddarganfod a thrwsio gollyngiadau. Mae gollyngiadau wedi lleihau 36% ers 1994-95 a disgwylir y bydd lleihad pellach o 3% erbyn 2015.

6.42 Rhaid i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ystyried yn llawn bod rheoli gollyngiadau dŵr yn fodd effeithlon o gydbwyso'r cyflenwad a'r galw. Mae gollyngiadau o rwydwaith dosbarthu ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn elfen bwysig o'r galw am ddŵr.

*6.43* Fel rhan o'i ragolygon am y galw, rhaid i ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth amcangyfrif llinell sylfaen ei ollyngiadau dros gyfnod cynllunio o 25 mlynedd a

dangos sut y caiff hyn ei ddarogan, ynghyd â gosod ei bolisi cyfredol o ran canfod a rheoli gollyngiadau.

6.44 Fan leiaf, nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ragolygon gollyngiadau sylfaenol mewn Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr sbarduno'r angen am ddewisiadau cyflenwi a galw newydd h.y. ni ddylai gollyngiadau llwyr achosi diffyg yn y cyflenwad.

6.45 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gynnwys proses canfod gollyngiadau a rheoli'r gwaith o'u lleihau fel dewis ymarferol a archwiliwyd yn llawn er mwyn sicrhau cyflenwad dŵr cyhoeddus diogel lle canfuwyd diffygion.

6.46 Disgwyliwn i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth barhau i arloesi a datblygu arbenigedd yn y gwaith o atal, adnabod a thrwsio gollyngiadau'n fwy effeithiol yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Os bydd archwiliadau'n datgelu'r angen am atebion ar yr ochr gyflenwi, gan gynnwys datblygiadau seilwaith mawr newydd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru fyddai'n gwneud y penderfyniadau.

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat barhau i sbarduno gwelliannau yng nghyd-destun gollyngiadau, gan adeiladu ar welliannau sydd eisoes wedi'u cyflawni ers i dargedau gael eu cyflwyno.
- Er mwyn helpu i gynnal yr arfer hon, mae disgwyl i Ofwat edrych ar Gynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr yn strategol a hirdymor ar gyfer rheoli gollyngiadau gan gynnwys cynigion i fynd ati'n rhagweithiol i adnewyddu a chynnal a chadw systemau dosbarthu dŵr glân fesul dipyn, er mwyn osgoi rhoi baich eithriadol ar gwsmeriaid yn y dyfodol o ran costau.
- Disgwylir i Ofwat gadw llygad ar ollyngiadau. Dylai hyn gael ei lywio gan yr adolygiad o Lefel Economaidd Gynaliadwy Gollyngiadau[79] drwy ystyried unrhyw ffactorau allanol cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Wrth i dechnoleg a thechnegau rheoli ddatblygu, ac wrth i werth dŵr fel adnodd naturiol hanfodol gynyddu, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i lefel y gollyngiadau leihau yn unol â hynny.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat gymryd camau yn unol â'i pholisi ar fonitro gollyngiadau os bydd ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn methu â chyrraedd y targedau lleihau gollyngiadau blynyddol a osoda.

**Llifogydd a'r Gallu i wrthsefyll**

6.47 Mae llifogydd ac erydiad arfordirol eisoes yn risg arwyddocaol i gymunedau drwy Gymru. Wrth i'r hinsawdd newid, gallwn ddisgwyl i'r risgiau hynny gynyddu, gyda llifogydd mwy ac amlach, codiadau yn lefelau'r môr a chyfraddau cyflymach o erydiad ar yr arfordir. Hefyd, gallwn ddisgwyl bod llifogydd ac erydu arfordirol yn

[79] Adroddiad Ofwat ar lefelau economaidd cynaliadwy gollyngiadau - http://www.ofwat.gov.uk/sustainability/waterresources/leakage/prs_web121012sellsmc.

effeithio ar fwy o gymunedau, gan gynnwys llawer nad ystyrir eu bod mewn perygl ar hyn o bryd.

6.48 Mae Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Lifogydd[80] yn cefnogi'r dull o edrych ar ddalgylchoedd i reoli perygl o lifogydd o bob ffynhonnell ac mae'n sicrhau nad oes dim rhwystrau rheoleiddiol i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithio gydag awdurdodau rheoli risg rhag cynllunio a darparu atebion hirdymor. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi gofynion i reoli perygl o lifogydd o bob ffynhonnell er mwyn lleihau effaith llifogydd ar iechyd pobl, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd.

6.49 Ymatebwyr ar lefel leol sy'n ymateb i'r holl ddigwyddiadau llifogydd. Gallai hyn amrywio o ddigwyddiadau bach sy'n effeithio ar ychydig o dai i argyfyngau mawr sy'n effeithio ar gannoedd o dai lle byddai ymateb aml-asiantaeth llawn yn cael ei gydlynu gan sefydliadau sy'n rhan o'r Fforwm Lleol Cydnerth drwy Grŵp Cydlynu Strategol.

6.50 Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004[81] yn mynnu bod sefydliadau sy'n ymateb yn cadw cynlluniau ar gyfer osgoi argyfyngau; lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfyngau; a chymryd camau gweithredu eraill os bydd argyfyngau. Bydd cynlluniau argyfwng effeithiol wedi'u hymarfer yn dda ar lefel sefydliad ac ar lefel aml-asiantaeth yn helpu i alluogi ymateb cyson a chydlynol i ddigwyddiadau llifogydd.

**Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru**

6.51 Ym mis Tachwedd 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol[82] yng Nghymru.

6.52 Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn pennu pedwar amcan cyffredinol ar gyfer rheoli perygl o lifogydd ac erydu arfordirol ac yn sefydlu fframwaith cyflawni sy'n cwrdd ag anghenion Cymru yn awr ac yn y dyfodol:

- lleihau sgil-effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol er lles unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
- codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb pobl mewn perthynas â rheoli perygl o lifogydd ac erydu arfordirol;
- rhoi ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd ac achosion o erydu erydiad arfordirol, a
- blaenoriaethu buddsoddi yn y cymunedau mwyaf agored i niwed

[80] Cyfarwyddeb yr UE ar Lifogydd - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/eudirective/?lang=cy.
[81] Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/36/contents.
[82] Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?skip=1&lang=cy.

6.53 Bydd pawb sy'n wynebu effeithiau neu sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd a rheoli arfordirol yn gyfrifol am roi'r amcanion hyn ar waith: Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Rheoli Risg Cymru; a phobl Cymru.

6.54 Mae ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn Awdurdodau Rheoli Risg fel y'u diffinnir gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr [83]. Rhaid i awdurdodau rheoli risg ymarfer eu swyddogaethau rheoli perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol.

6.55 Mae ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn arwain ar nifer o weithgareddau rheoli llifogydd, yn anad dim y rheini mewn perthynas â llifogydd carthffosiaeth, ac maent erbyn hyn wedi'u cynnwys mewn trefniadau partneriaeth lle y bo'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wybodaeth werthfawr am berygl o lifogydd a allai fod o gymorth mawr i ddeall y peryglon o lifogydd a wynebir gan gymunedau drwy Gymru. Fel Awdurdodau Rheoli Risg, mae dyletswydd statudol ar ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i gydweithio ag awdurdodau gweithredu eraill wrth ymarfer eu swyddogaethau rheoli perygl o lifogydd ac erydu arfordirol ac i rannu gwybodaeth at y diben hwnnw.

**Llifogydd Dŵr ar yr Wyneb a Strategaethau Lleol**

6.56 Awdurdodau Lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli peryglon llifogydd dŵr ar yr wyneb. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi modelu a mapio ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd dŵr ar yr wyneb. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyfuno â chofnodion hanesyddol o lifogydd dŵr ar yr wyneb er mwyn galluogi awdurdodau lleol ac ymatebwyr eraill i gael gwell dealltwriaeth o berygl o lifogydd yn eu hardaloedd.

6.57 Mae angen i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gwblhau strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl o lifogydd ar gyfer eu hardal, ac mae'n rhaid iddi fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol. Dylai ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddatblygu cynlluniau buddsoddi mewn modd a fydd yn cyfrannu at amcanion a mesurau'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu arfordirol drwy:

- ystyried strategaethau lleol ar gyfer rheoli perygl o lifogydd ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, wrth ymarfer swyddogaeth rheoli perygl o lifogydd neu erydu arfordirol; ac
- ystyried strategaethau lleol a chenedlaethol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, wrth ymarfer unrhyw swyddogaeth arall mewn modd a fyddai'n effeithio ar berygl o lifogydd neu erydu arfordirol.

- Mae newid yn yr hinsawdd, tai a datblygiadau eraill yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar rwydweithiau draenio, gan gynyddu'r risg o lifogydd dŵr ar yr wyneb a charthffosydd. Dylai Ofwat gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddeall y peryglon posibl o lifogydd o'u rhwydweithiau a sut y mae

[83] Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents.

ymateb i hyn.

- Rydym yn disgwyl i Ofwat cymell a hyrwyddo'r gwaith o reoli dŵr ar yr wyneb yn gynaliadwy.
- Rydym yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddangos sut y byddant yn ystyried Fframwaith Strategaeth Draenio Ofwat[84] ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth er mwyn paratoi Strategaethau Draenio - Mai 2013, yn unol â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.
- Yn ganolog i hyn mae datblygu cynlluniau i reoli dŵr ar yr wyneb a dylai Ofwat annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i ymgysylltu'n rhagweithiol ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill mewn cynlluniau effeithiol ar gyfer rheoli dŵr ar yr wyneb gan ddefnyddio dulliau Systemau Draenio Cynaliadwy. Dylai hyn gynnwys ystyried y buddion posibl y gallai cynllunio rheoli dŵr ar yr wyneb eu creu ar gyfer cynllunio buddsoddi mewn draeniau - er enghraifft, ei wneud yn fwy seiliedig ar risg ac wedi'i lywio gan ystyriaethau ehangach ynghylch dŵr ar yr wyneb. Byddai hyn yn cynnwys defnyddio dull integredig ar draws y busnes er mwyn sicrhau buddion o ran ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, perygl o lifogydd ac effeithlonrwydd dŵr ynghyd â'r buddion ehangach ar gyfer y cymunedau lleol y gellir eu cyflawni drwy osod seilwaith gwyrdd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat gefnogi ei nod i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru ddefnyddio dulliau cynaliadwy i leihau effaith llifogydd carthffosydd yng Nghymru cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Y gallu i wrthsefyll peryglon naturiol**

6.58 Gosodir gofynion rheoleiddiol ar ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gan Gyfarwyddyd Diogelwch a Mesurau Brys (SEMD) 1998[85] a Chanllawiau a Hysbysiad Cyfarwyddyd Diogelwch a Mesurau Brys (6) (SEMG(6))[86]. Mae hyn, ymysg pethau eraill, yn gofyn i ymgymerwyr wneud gwaith diogelwch ar gyfarpar hanfodol a osodir, a diogelu cyfarpar arall a osodir a chyfleusterau eraill yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Defra ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.

---

[84] Drainage Strategy Framework for water and sewerage companies to prepare Drainage Strategies - Good practice guidance commissioned by the Environment Agency and Ofwat - http://www.ofwat.gov.uk/future/sustainable/drainage/prs_web201305drainage.

[85] Cyfarwyddyd Diogelwch a Mesurau Brys (SEMD) 1998 - http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&frm=1&source=web&cd=1&ved=0CC0QFjAA&url=http%3A%2F%2Farchive.defra.gov.uk%2Fcorporate%2Fabout%2Fhow%2Fcontingency%2Fdocuments%2Fwater-semd98.pdf&ei=Ur6UUqK0BfDB7AbsvYCoDQ&usg=AFQjCNHFuvaSnkyTuidO5gzESTDVl93gFA.

[86] Canllawiau a Hysbysiad Cyfarwyddyd Diogelwch a Mesurau Brys (6) (SEMG(6)) - http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&frm=1&source=web&cd=1&ved=0CC0QFjAA&url=http%3A%2F%2Fdwi.defra.gov.uk%2Fstakeholders%2Fguidance-and-codes-of-practice%2Fsemg6-dec09.pdf&ei=jr6UUuqZDsaBhAfJpoDQCA&usg=AFQjCNHpks1iis2Z2EOGGVpoAF2NzYQRvA.

6.59 Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid eraill, cynhyrchodd Ofwat y ddogfen 'Resilience -outcomes focused regulation - Principles for resilience planning'[87] - 2012. Dylai ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gynnal asesiad priodol o bob perygl naturiol, gan gynnwys y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i'w hasedau a'u seilwaith. Dylai cynllunio ar gyfer gwrthsefyll gael ei integreiddio drwy'r holl gynllunio busnes, a dylid rhoi mesurau ar waith i warchod yr amgylchedd yn ogystal â'r cyflenwad i gwsmeriaid. Dylai bod modd addasu mesurau gwrthsefyll, a dylent ystyried y newid yn yr hinsawdd.

- Disgwylir i Ofwat osod cyfyngiadau prisiau sy'n galluogi ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i wneud y gwaith angenrheidiol hwn, er mwyn sicrhau y gellir gwrthsefyll peryglon naturiol fel y'u diffinnir yn Asesiad Risg Cenedlaethol y Llywodraeth[88]. Bydd yr effeithiau a ragwelir o ran newid yn yr hinsawdd yn cael eu cynnwys mwy a mwy yn yr asesiad i nodi peryglon sy'n effeithio ar seilwaith.
- Disgwylir i Ofwat sicrhau bod y cyfyngiadau prisiau sy'n cael eu gosod yn sicrhau bod ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yn gallu gwneud y gwaith at ddibenion diogelwch a nodir yng Nghyfarwyddyd Diogelwch a Mesurau Brys 1998.

**Ansawdd Dŵr Yfed**

6.60 Mae adroddiad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ar gyfer Cymru ar gyfer 2012[89] yn cadarnhau mai 99.96% oedd lefel cydymffurfio gyffredinol cyflenwadau dŵr ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru â safonau ansawdd perthnasol.

6.61 Mae parhau i gyflenwi dŵr yfed glân a diogel o'r pwys mwyaf. Mae'r Rhaglen Lywodraethu[90] wedi nodi'r pwysigrwydd o gynnal safonau uchel o ran ansawdd dŵr yfed. Mae gan ddefnyddwyr ddisgwyliadau uchel o ran ansawdd dŵr yfed ac mae'n rhaid cynnal hyder y cyhoedd mewn cyflenwadau dŵr. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dulliau sy'n seiliedig ar risg o reoli cyflenwadau dŵr, gyda hyn seiliedig ar gynllunio diogelwch dŵr a gaiff ei gydnabod yn eang fel arfer da. Yn ogystal, mae'n cydnabod manteision agwedd hirdymor tuag at stiwardiaeth asedau a'r angen am strategaeth ragweithiol ac ataliol i gyflawni'r brif ddyletswydd sef gwarchod iechyd y cyhoedd.

6.62 Er hynny, efallai y bydd angen gwelliannau er mwyn sicrhau diogelwch ansawdd dŵr yfed ac i gwrdd ag ymrwymiadau statudol, gan gynnwys cyfraniad y diwydiant dŵr at gyflawni anghenion mwy heriol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

---

[87] Resilience -outcomes focused regulation - Principles for resilience planning http://www.ofwat.gov.uk/sustainability/climatechange/adapt/prs_web120503resilience.
[88] Risk assessment: how the risk of emergencies in the UK is assessed - https://www.gov.uk/risk-assessment-how-the-risk-of-emergencies-in-the-uk-is-assessed.
[89] Dŵr Yfed 2012 -http://dwi.defra.gov.uk/about/annual-report/2012/wales-welsh.pdf.
[90] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?lang=cy

- Disgwylir i Ofwat sicrhau bod buddsoddiadau sy’n ymwneud â gwella asedau er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol (gan gynnwys Cyfarwyddeb Dŵr Yfed Ewropeaidd a rheoliadau ansawdd dŵr cenedlaethol) ar gyfer ansawdd dŵr yfed yn cael eu cynnal ac yn cael eu hystyried yn llawn wrth osod cyfyngiadau pris.
- Dylai Ofwat gefnogi camau gweithredu gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i gydymffurfio â’u prif ddyletswydd i gyflenwi dŵr iach, ynghyd â chynnal lefelau gwasanaeth i gynnal hyder y cyhoedd mewn cyflenwadau dŵr. Dylid hefyd cwrdd â disgwyliadau’r defnyddwyr o ran ansawdd dŵr yfed, drwy hwyluso dull sy’n seiliedig ar risg o gyflenwi dŵr, a hynny yn seiliedig ar gynllunio diogelwch dŵr o’r ffynhonnell i’r tap.

**Ansawdd Dŵr Amgylcheddol**

6.63 Mae gwaith monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos bod ansawdd afonydd a dyfroedd arfordirol yng Nghymru yn uchel ar y cyfan. Mae’n bwysig i Lywodraeth Cymru bod y safonau uchel hyn o ansawdd dŵr amgylcheddol yn cael eu cynnal a’u gwella. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â’r anghenion ‘dim dirywiad’ yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a’r cysondeb ag amcanion y Strategaeth Amgylcheddol o gynnal ansawdd ein dyfroedd arfordirol a safonau biolegol a chemegol ein hafonydd yng Nghymru.

6.64 Bydd cyrraedd y safonau uchel hyn yn gofyn am sylw cyson i drin carthffosiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau trwyddedau amgylcheddol. Yn ogystal, mae angen gweithdrefnau da er mwyn gallu rhag-weld problemau fel rhwystrau mewn carthffosydd a sicrhau ymateb priodol ac amserol os bydd pethau’n mynd o chwith.

6.65 Er mwyn cyflawni’r amcanion hyn ar gyfer ansawdd dŵr, mae’n rhaid i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddeall cyflwr eu hasedau a’u cynnal a’u newid fel y bo’n briodol er mwyn diogelu parhad y gwasanaeth i gwsmeriaid. Heb waith cynnal a chadw ac adnewyddu digonol, tanseilir y cynnydd sylweddol a wnaed yn ystod y degawdau diwethaf o ran cyflawni gwelliannau mewn ansawdd.

6.66 Mae llawer i’w wneud o hyd er mwyn cyrraedd y safonau ecolegol da sy’n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ledled Cymru. Bydd rheoli tir yn allweddol i wneud gwelliannau pellach mewn rhai dalgylchoedd, ac mewn eraill gall fod yn fwy buddiol newid arferion rheoli tir yn hytrach na defnyddio rhagor o ddulliau trin sy’n ddrud ac yn ddrud-ar-garbon mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Yn y dalgylchoedd hyn rydym yn awyddus i annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i weithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau lleol er mwyn dod o hyd i atebion addas ar lefel y dalgylch. Byddwn yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru symud y dull hwn yn ei flaen a nodi lle byddai ateb ar lefel y dalgylch o’r budd mwyaf.

6.67 Bydd y mesurau y bydd angen i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth eu gweithredu er mwyn cwrdd ag amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cael eu pennu drwy broses gynllunio basn yr afon, ac felly bydd angen gwneud cysylltiadau rhwng y broses gynllunio basn yr afon a’r adolygiad cyfnodol o brisiau dŵr.

- Er ein bod yn cydnabod nad yw hyn yn ganolog i'w rôl, mae Llywodraeth Cymru yn annog Ofwat i barhau i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn arbennig felly drwy gyfrannu at y ddadl ar gymesuredd y cyfrifoldebau a roddwyd i'r diwydiant dŵr i'w cyflawni.
- Dylai Ofwat sicrhau bod cynlluniau busnes ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n nodi lefelau o fuddsoddiad yn sicrhau bod asedau'n cael eu diogelu rhag dirywiad neu'n gwella eu perfformiad yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.
- Dylai Ofwat annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i chwilio atebion ar lefel dalgylch a gweithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion priodol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r cylch adolygu prisiau hwn (PR14) yn cyd-redeg â chylch cynllunio Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer 2015 – 2021. Byddem yn annog Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru i gydweithio gyda'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i'w helpu i nodi a darparu mesurau sy'n ofynnol dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Wrth gydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd, gall amgylchiadau godi pan fydd yn ofynnol i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth wneud gwaith ychwanegol i sicrhau nad oes dim risg o dordyletswydd y tu allan i gyfnod penodol yr adolygiad prisiau. O ran y materion hyn, byddem yn disgwyl i Ofwat roi sylw dyledus i geisiadau wedi'u seilio ar dystiolaeth gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, i hwyluso'r gwaith o gydymffurfio â Chyfarwyddebau.

**Gwaith partneriaeth rhwng Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth**

6.68 Mae'r dull gweithredu a welir yn y Strategaeth Amgylcheddol ac yn Cynnal Cymru Fyw yn cydnabod sut y mae defnydd tir yn gallu effeithio ar ansawdd dŵr. Mae'n nodi'r angen i ddeall llygredd gwasgaredig yn well ac i gael camau gweithredu priodol i leihau a rheoli'r broblem.

6.69 Mae ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth mewn sefyllfa dda i ddatblygu a chyfrannu at atebion integredig ac arloesol wedi'u seilio ar ecosystem er mwyn sicrhau sawl budd, gan gynnwys canlyniadau amgylcheddol ar raddfa'r dalgylch a basn yr afon. Yn arbennig felly, mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio dull partneriaeth er mwyn ymdrin â llygredd dŵr gwasgaredig. Ceir corff cynyddol o dystiolaeth a gwybodaeth am amrediad ac effeithiolrwydd y dulliau hyn a sut y gallant ategu offerynnau polisi eraill gan y Llywodraeth megis cynlluniau amaeth-amgylchedd i greu buddion amgylcheddol i'r gymdeithas gyfan.

6.70 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth gymryd rhan yn y broses hon o gynllunio basn afon, gan gyfrannu at waith y paneli cyswllt yn yr ardaloedd basn afon, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (a lle y bo'n berthnasol, Asiantaeth yr Amgylchedd), a gweithio mewn partneriaeth ag amrediad o sefydliadau cyhoeddus a phreifat.

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat gymell ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i fabwysiadu dulliau arloesol i wella ansawdd dŵr, gan gynnwys gweithio gyda rheolwyr tir er mwyn rheoli llygredd dŵr gwasgaredig yn y ffynhonnell, lle bydd hyn o fudd i gwsmeriaid dŵr.

**Carthffosiaeth**

6.71 Mae gwasanaethau carthffosiaeth yn rhan hanfodol o waith ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ond yn aml iawn nid yw hyn yn cael o sylw.

6.72 Yn dilyn trosglwyddo carthffosydd preifat ar 1 Hydref 2011, mae'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus wedi dyblu bron. Mae'r rhwydwaith a fabwysiadwyd mewn cyflwr gwael iawn mewn rhai ardaloedd a bydd angen buddsoddiad sylweddol er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith carthffosiaeth yn wydn ac yn addas i'r pwrpas, gan leihau nifer y carthffosydd sy'n dymchwel a'r posibilrwydd o ddigwyddiadau llygredd.

6.73 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth edrych yn strategol a hirdymor ar sut y maent yn rheoli ac yn cynnal eu rhwydwaith dŵr gwastraff er mwyn sicrhau bod y seilwaith yn addas ac yn gallu ymdopi â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yn y dyfodol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth, heb roi baich anghyfartal ar gwsmeriaid yn y dyfodol gyda chostau addasu.

6.74 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i weld lle mae angen gwelliannau mewn perthynas â rheoli draeniad cefnffyrdd er mwyn sicrhau bod ein seilwaith yn cael ei reoli'n gywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

6.75 Byddai Llywodraeth Cymru yn annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i archwilio a gweithredu atebion cynaliadwy ar gyfer cael gwared â dŵr gwastraff lle mae'n gost-effeithiol i wneud hynny a, lle y bo'n bosibl, edrych am gyfleoedd i harneisio ynni o elifion lle mae'n gost-effeithiol.

6.76 Mae Llywodraeth Cymru yn annog ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth i ymchwilio ymhellach a gweithredu atebion cynaliadwy i wyro dŵr ar yr wyneb o systemau carthffosiaeth fel ffordd amgen i gynyddu capasiti.

- Disgwylir y bydd Ofwat yn ystyried y cynnydd ym maint y rhwydwaith dŵr gwastraff sydd dan y ddaear yn dilyn trosglwyddo carthffosydd preifat a draeniau ochrol ac yn gosod cyfyngiadau prisiau yn unol â hynny. Dylai ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddarparu tystiolaeth i gefnogi unrhyw gostau cysylltiedig â throsglwyddo carthffosydd preifat a draeniau ochrol.
- Disgwylir i Ofwat hwyluso dull hirdymor i gynnal ac atgyweirio asedau, gan sicrhau bod costau cysylltiedig yn cael eu hysgwyddo ac yn cael eu cyflwyno'n raddol dros

gyfnod priodol o amser er mwyn sicrhau bod ein rhwydweithiau dŵr gwastraff yn addas i’r pwrpas ac yn gallu ymdrin â heriau yn y dyfodol.

- Dylai Ofwat annog y defnydd o atebion cynaliadwy hirdymor ar gyfer trin a chael gwared â dŵr gwastraff lle mae’n gost-effeithiol i wneud hynny, a lle bydd yn darparu buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach.
- Rydym yn disgwyl i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ddangos sut y byddant ystyried Fframwaith Strategaeth Draenio Ofwat[91] ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth er mwyn paratoi Strategaethau Draenio - Mai 2013, yn unol â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

[91] Drainage Strategy Framework for water and sewerage companies to prepare Drainage Strategies - Good practice guidance commissioned by the Environment Agency and Ofwat - http://www.ofwat.gov.uk/future/sustainable/drainage/prs_web201305drainage.

**Atodiad A – Awdurdod Cyfreithiol**

**Adran 2A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i cynhwyswyd gan adran 40 o Ddeddf Dŵr 2003)**

**Canllawiau ar faterion cymdeithasol ac amgylcheddol**

(1) Mae'n bosib y cyhoeddir canllawiau o dro i dro—

(a) gan y Cynulliad[92], mewn perthynas ag ardaloedd penodi sydd yn gyfan gwbl neu gan fwyaf yng Nghymru; a
(b) gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas ag ardaloedd penodi eraill, ynglŷn â chyfraniad gan yr Awdurdod at gyrraedd unrhyw bolisïau cymdeithasol neu amgylcheddol a nodwyd neu y cyfeiriwyd atynt yn y canllawiau.

(2) Wrth lunio canllawiau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad, lle y bo'n ymarferol, roi sylw i gostau a buddion y disgwylir iddynt godi yn sgil y canllawiau.

(3) Rhaid i'r Awdurdod, wrth ymarfer a pherfformio'r pwerau a'r dyletswyddau sydd wedi'u crybwyll yn adran 2(1) uchod (yn amodol ar adran 2(6) uchod), roi sylw i unrhyw ganllawiau sydd wedi'u cyhoeddi o dan yr adran hon.

(4) Cyn cyhoeddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad ymgynghori â'r canlynol—

(a) yr Awdurdod;

(b) y Cyngor;

(c) yn achos yr Ysgrifennydd Gwladol, y Cynulliad neu fel arall;

(d) ymgymerwyr perthnasol;

(e) cyflenwyr dŵr trwyddedig; ac

(f) unigolion eraill o'r fath y mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cynulliad yn eu hystyried yn briodol i ymgynghori â hwy mewn perthynas â'r canllawiau.

(5) Rhaid i ddrafft unrhyw ganllawiau y bwriedir eu cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon gael ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd.

(6) Ni chaiff canllawiau eu cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon tan ar ôl y cyfnod o ddeugain diwrnod sy'n cychwyn gyda—

(a) y diwrnod y caiff y drafft ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd; neu

(b) os bydd y drafft yn cael ei osod gerbron Tŷ'r Arglwyddi ar un diwrnod a gerbron Tŷ'r Cyffredin ar ddiwrnod arall, y diwethaf o'r ddau ddiwrnod hyn.

---

[92] Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

(7) Os, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bod y naill Dŷ neu'r llall yn penderfynu na ddylai'r canllawiau gael eu cyhoeddi, ni ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol eu cyhoeddi.

(8) Wrth gyfrif unrhyw gyfnod o ddeugain niwrnod ar gyfer dibenion isadran (6) neu (7) uchod, ni fydd dim ystyriaeth yn cael ei rhoi i unrhyw amser lle bydd—

(a) y Senedd wedi'i diddymu neu'i rhagderfynu; neu

(b) bod y ddau Dŷ wedi'u gohirio am fwy na phedwar diwrnod.

(9) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad drefnu bod unrhyw ganllawiau a gyhoeddir ganddo ef neu'r Cynulliad o dan yr adran hon yn cael eu cyhoeddi yn y fath fodd y mae ef neu'r Cynulliad yn ei ystyried yn briodol.

(10) Yn yr adran hon, “ardal benodi” yw'r ardal lle mae penodiad mewn grym o dan Bennod 1 Rhan 2 o'r Ddeddf hon.